

# Pecyn Dogfen Gyhoeddus



Swyddog Cyswllt:  
Sharon Thomas / 01352 702324  
sharon.b.thomas@flintshire.gov.uk

At: Bob Aelod o'r Cyngor

Dydd Mercher, 14 Mehefin 2017

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod Cyngor Sir y Fflint a fydd yn cael ei gynnal am 2.00 pm Dydd Mawrth, 20fed Mehefin, 2017 yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug CH7 6NA i ystyried yr eitemau canlynol

## R H A G L E N

### 1 CYFLWYNIADAU

Gwobrau Adeiladu a Pheirianeg 2016 - Prosiect Sector Cyhoeddus y Flwyddyn – Campws Dysgu Treffynnon.

Gwobrau Prentisiaid 2017 - Dathlu llwyddiant prentisiaethau Sir y Fflint.

### 2 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

**Pwrpas:** I derbyn unrhyw ymddiheuriadau.

### 3 COFNODION (Tudalennau 5 - 46)

**Pwrpas:** I gadarnhau, fel cofnod cywir gofnodion y cyfarfodydd ar 14 Chwefror, 1 Mawrth a 18 Mai 2017.

### 4 DATGAN CYSYLLTIAD

**Pwrpas:** I derbyn unrhyw ddatganiad o gysylltiad a chynghori'r Aelodau yn unol a hynny.

### 5 CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

**Pwrpas:** Derbyn unrhyw gyhoeddiad fel y'i dosbarthwyd.

### 6 DEISEBAU

**Pwrpas:** Derbyn unrhyw ddeiseb.

## 7 CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD

**Pwrpas:** Derbyn unrhyw gwestiwn gan y cyhoedd.

## 8 CWESTIYNAU

**Pwrpas:** Nodi'r atebion i unrhyw gwestiwn a gyflwynwyd yn unol â Rheol Sefydlog 9.4(A) y Cyngor Sir.

## 9 CYDNABYDDIAETH I IAN BUDD

**Pwrpas:** Cydnabod cyfraniad a wnaed i'r Cyngor gan Ian Budd, Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) sy'n gadael yr Awdurdod ddiwedd Mehefin i ymuno â Chyngor Sir Powys.

## 10 RHYBUDD O GYNNIG

**Pwrpas:** Ystyried y Cynigion canlynol gan y Cynghorydd Aaron Shotton.

### Tai Cyngor Newydd

Mae cap ar fenthyca y Cyfrif Refeniw Tai wedi'i osod ar gyfer Cymru gan Lywodraeth y DU. Mae'r cap ar fenthyca yn cyfyngu ar y lefel o ddyled y gall Cyfrif Refeniw Tai Awdurdod Lleol ei grynhoi. Mae'n ffigwr artiffisial nad oes ganddo unrhyw gysylltiad â'r capasiti o fewn cyfrifon y Cyfrif Refeniw Tai i ariannu costau refeniw benthyca.

Pe codir y cap ar fenthyca, gallai cynghorau adeiladu mwy o gartrefi i ddiwallu angen lleol cynyddol.

Mae'r cap ar fenthyca cyfredol, pan gaiff ei gymhwysu i'n Sir, yn galluogi i'r Cyngor hwn adeiladu tua 200 o dai Cyngor newydd. Er enghraifft, gallai £25m ychwanegol o gynnydd yn y cap ar fenthyca adeiladu 200 o dai cyngor newydd ychwanegol erbyn 2020.

Cynnig:

'Mae Cyngor Sir y Fflint yn galw ar Lywodraeth y DU i gymryd camau ar unwaith a chodi cap ar fenthyca y Cyfrif Refeniw Tai yng Nghymru, gan alluogi i'r Cyngor hwn adeiladu mwy o dai Cyngor a lliniaru'r argyfwng yn yr alwad am dai, tra'n cefnogi twf economaidd lleol yn Sir y Fflint.'

### Datblygu Cyngor Yr Ifanc ar gyfer Sir y Fflint

Cyngor Yr Ifanc yw sefydliad democrataidd wedi'i greu, ei gynnal a'i ddatblygu gan bobl ifanc, ar gyfer pobl ifanc. Maen nhw'n bodoli er mwyn cynrychioli safbwyntiau pobl ifanc ar lefel leol, gan roi cyfle i bobl ifanc gael llais, trafod materion perthnasol, ymgysylltu â'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau a chyfrannu at wella bywydau pobl ifanc yn eu cymunedau.

Bydd datblygu Cyngor Yr Ifanc gyda chysylltiadau adrodd ffurfiol â'r Cyngor hwn yn galluogi i bobl ifanc gymryd rhan uniongyrchol yn y penderfyniadau a wneir sy'n effeithio arny'n nhw.

Bydd Cyngor Yr Ifanc yn galluogi i Bobl Ifanc:

- Leisio eu pryderon
- Cymryd rhan mewn llywodraeth leol
- Bod ag awdurdod i wneud penderfyniadau a chymryd camau i wella eu cymuned leol.

Bydd datblygu Cyngor Yr Ifanc yn galluogi i'r Cyngor Sir:

- Gynrychioli'r gymuned gyfan
- Dod yn fwy llewyrchus, modern a dynamig
- Annog mwy o bobl ifanc i bleidleisio a chymryd rhan mewn gwasanaeth cyhoeddus.
- Gwella gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc

Cynnig:

'Mae'r Cyngor hwn yn cefnogi sefydlu Cyngor Yr Ifanc ar gyfer Sir y Fflint er mwyn trafod materion perthnasol, ymgysylltu â'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau a chyfrannu at wella bywydau pobl ifanc o fewn y Sir.'

11 **BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS SIR Y FFLINT A DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015** (Tudalennau 47 - 56)

Adroddiad Prif Weithredwr -


**Pwrpas:** Mabwysiadu amcanion lles y Cyngor a diweddariad ar gynnydd gwaith Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus.

12 **ATODLEN CYDNABYDDIAETHAU ARIANNOL** (Tudalennau 57 - 74)

Adroddiad Prif Swyddog (Llywodraethu) -

**Pwrpas:** Gofynnir i'r Cyngor gymeradwyo Atodlen Cydnabyddiaethau Ariannol 2017/18 ar gyfer aelodau etholedig a chyfetholedig, rwan bod yr holl benodiadau wedi'u gwneud.

Yn ddiffuant,



Robert Robins  
Rheolwr Gwasanaethau Democraidd

### **HYSBYSIAD GWEDDARLLEDU**

Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ffilmio a'l ddarlledu'n fyw ar wefan y Cyngor. Bydd y cyfarfod cyfan yn cael ei ffilmio oni bai fod eitemau cyfrinachol neu wedi'u heithrio dan drafodaeth, a bydd ar gael i'w weld ar wefan y Cyngor am 6 mis.

Yn gyffredinol ni fydd y manau eistedd cyhoeddus yn cael eu ffilmio. Fodd bynnag wrth i chi ddod i mewn i'r Siambr, byddwch yn cydsynio i gael eich ffilmio ac i'r defnydd posibl o'r delweddau a'r recordiadau sain hynny ar gyfer gweddarlledu a/neu ddibenion hyfforddi.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau ynglŷn â hyn, ffoniwch aelod o'r Tîm Gwasanaethau Democrataidd ar 01352 702345.

# Eitem ar gyfer y Rhaglen 3

## CYNGOR SIR Y FFLINT 14 CHWEFROR 2017

Cofnodion cyfarfod Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, dydd Mawrth, 14 Chwefror 2017.

### **YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Peter Curtis (Cadeirydd)**

Cynghorwyr: Bernie Attridge, Glyn Banks, Haydn Bateman, Marion Bateman, Chris Bithell, Helen Brown, Derek Butler, Clive Carver, David Cox, Paul Cunningham, Ron Davies, Adele Davies-Cooke, Alan Diskin, Glenys Diskin, Rosetta Dolphin, Ian Dunbar, Andy Dunbobbin, Carol Ellis, Veronica Gay, Robin Guest, Ron Hampson, George Hardcastle, David Healey, Cindy Hinds, Ray Hughes, Dennis Hutchinson, Hilary Isherwood, Joe Johnson, Rita Johnson, Christine Jones, Kevin Jones, Colin Legg, Phil Lightfoot, Brian Lloyd, Richard Lloyd, Mike Lowe, Dave Mackie, Nancy Matthews, Hilary McGuill, Ann Minshull, Billy Mullin, Sara Parker, Mike Peers, Vicky Perfect, Neville Phillips, Mike Reece, Gareth Roberts, David Roney, Tony Sharps, Aaron Shotton, Paul Shotton, Ian Smith, Nigel Steele-Mortimer, Carolyn Thomas, Sharon Williams, David Wisinger, Arnold Woolley a Matt Wright

### **YMDDIHEURIADAU:**

Cynghorwyr: Alex Aldridge, Chris Dolphin, Brian Dunn, David Evans, Alison Halford, Richard Jones, Tim Newhouse, Ian Roberts, Owen Thomas a David Williams

### **HEFYD YN BRESENNOL:**

Y Prif Weithredwr, Prif Swyddog (Llywodraethu), Prif Swyddog (Newid Sefydliadol 2), Prif Swyddog (Newid Sefydliadol 1), Prif Swyddog (Cymuned a Menter), Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol), Prif Swyddog (Cynllunio a'r Amgylchedd), Rheolwr Cyllid Corfforaethol, Rheolwr Cyllid (Cyfrifeg Technegol), Rheolwr Cyllid a Chyfrifeg Dros Dro, Rheolwr Cyllid, Rheolwr Asedau Tai, Swyddogion Pwyllgor a'r Tad Roberto ar gyfer gweddïau.

## **76. COFNODION Y CYNGOR**

Roedd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Rhagfyr 2016 wedi eu cylchredeg gyda'r rhaglen.

### Cywirdeb

Cyfeiriodd y Cynghorydd Carolyn Thomas at ei sylwadau ar dudalen 7, eitem 69, a dywedodd ei bod hefyd wedi anfon copi o'r ddeiseb i'r Aelod Seneddol lleol, Aelod Cynulliad lleol ac Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith i Lywodraeth Cymru yn gofyn am gyllid yn dilyn cwmp GHA coaches. Dywedodd ei bod yn ymwybodol fod peth cyllid wedi ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru ond nad oedd hyn yn ddigonol i ymdrin â'r costau ariannol oedd yn wynebu'r Cyngor i sicrhau parhad gwasanaeth bws. Pwysleisiodd y Cynghorydd Thomas fod angen i ardaloedd gwledig barhau i dderbyn gwasanaeth bws yn y dyfodol.

Holodd y Cynghorydd Neville Phillips pam nad oedd y Tad Roberto wedi ei gofnodi'n bresennol yn y cyfarfod. Eglurodd y Cadeirydd fod Aelodau wedi cytuno'n

flaenorol y byddai gweddïau yn digwydd cyn dechrau'r cyfarfod, ond, roedd yn cydnabod y pwynt a wnaed gan y Cynghorydd Phillips ac nid oedd ganddo wrthwynebiad i'r cofnodion gael eu diwygio er mwyn cofnodi fod y Tad Roberto yn bresennol.

### **PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir yn amodol ar y newidiadau uchod.

### **77. DATGAN CYSYLLTIAD**

Datganodd y Cynghorydd David Healey gysylltiad personol yn yr eitem ganlynol gan ei fod yn llywodraethwr Ysgol Uwchradd Castell Alun. Datganodd y Cynghorydd Kevin Jones gysylltiad personol hefyd gan ei fod yn Gadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Glan Aber. Datganodd y Cynghorwyr Ray Hughes a Ron Hampson gysylltiad personol hefyd yn yr eitem ganlynol.

Eitem 6: Rhaglen Gyfalaf Cronfa'r Cyngor 2017/18 - 2019/20

Datganodd y Cynghorydd Andy Dunbobbin gysylltiad personol yn yr eitem ganlynol. Datganodd y Cynghorydd Hilary McGuill gysylltiad personol hefyd yn yr eitem ganlynol fel Aelod o Fwrdd NEW Homes.

Eitem 7: Cyllideb Refeniw a Rhaglen Gyfalaf Cyfrif Refeniw Tai 2017/18

### **78. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

Roedd copi o Gyhoeddiadau'r Cadeirydd wedi eu rhoi i'r holl Aelodau cyn y cyfarfod. Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi mwynhau ac yn gwerthfawrogi'r ymweliadau gan ysgolion ac yn gobeithio y byddai'r rhain yn parhau ac yn ehangu i gynnwys ymweliadau gan ysgolion uwchradd.

Diolchodd y Cynghorydd Richard Lloyd i'r Cadeirydd am ei gyfraniad i orymdaith y Maer yn Saltney.

### **79. CYLLIDEB REFENIW CRONFA'R CYNGOR 2017/18**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad i ddarparu argymhellion y Cabinet ar gyfer Cyllideb Refeniw Cronfa'r Cyngor 2017/18. Rhoddodd wybodaeth gefndir a chyfeiriodd at y camau yn y broses o osod y gyllideb oedd wedi bod yn fuddiol o ran blaen gynllunio. Dywedodd fod Cam Un cynigion y gyllideb ar gyfer y portffolios gwasanaeth wedi eu cymeradwyo gan y Cyngor ar 15 Tachwedd 2016, a bod cynigion Cam Dau ar gyfer stiwardiaeth ariannol corfforaethol wedi eu cymeradwyo gan y Cyngor ar 6 Rhagfyr 2016. Hefyd roeddent wedi cael cymeradwyaeth ymlaen llaw gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol ar 30 Tachwedd 2016.

Rhoddodd y Prif Weithredwr a'r Rheolwr Cyllid Corfforaethol gyflwyniad ar y cyd oedd yn trafod y meysydd canlynol:

- strategaeth y gyllideb
- Cam Un y Gyllideb – cynlluniau busnes portffolio
- Cam Dau y Gyllideb – Stiwardiaeth Ariannol Corfforaethol
- y bwlch sy'n parhau yn y gyllideb ar ôl camau un a dau
- opsiynau cyfyngedig i gau'r bwlch yn y gyllideb
- Cyllid Gofal Cartref
- Treth y Cyngor
- buddsoddiad mewn ysgolion
- treth y cyngor a'r defnydd o gronfeydd wrth gefn a balansau
- risgiau a materion yn ymwneud â'r gyllideb
- safbwyntiau proffesiynol
- y dyfodol

Diolchodd y Cyngorydd Aaron Shotton i'r Prif Weithredwr, y Rheolwr Cyllid Corfforaethol a'i dîm, a'r Prif Swyddogion a'u timau, am y gwaith pwysig a wnaed yn ystod y cyfnod hwn o lymder na welwyd mo'i debyg o'r blaen a'r her i wasanaethau cyhoeddus wrth baratoi'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Hefyd diolchodd i'r Aelodau am eu hymagwedd unedig er mwyn amddiffyn gwasanaethau allweddol a'r craffu cadarn a phriodol oedd wedi digwydd. Gwnaeth sylw ar yr achos cenedlaethol oedd wedi ei wneud gan Sir y Fflint ar lefel genedlaethol, nid yn unig ar gyfer Sir y Fflint ond ar ran y 'teulu' llywodraeth leol ynglŷn â'r pwysau o gylch gofal cymdeithasol a'r cyllid ychwanegol oedd wedi ei dderbyn yn y Setliad terfynol o ganlyniad. Gwnaeth sylw ar yr argyfwng iechyd cenedlaethol sy'n datblygu yn Lloegr o ganlyniad i danariannu'r system gofal cymdeithasol a dywedodd fod Sir y Fflint, er gwaetha'r pwysau a wynebwyd eleni, wedi gweld amddiffyn cyllidebau gofal cymdeithasol a chynnydd o £3.2m yn y gyllideb.

Gan gyfeirio at yr argymhellion o'r Cabinet i gau'r bwlch a chydbwysu'r gyllideb, dywedodd y Cyngorydd Shotton ei fod yn ddiolchgar am y cynnydd o 1.34% yng nghyllidebau ysgolion a dywedodd ei bod yn briodol fod cronfeydd wrth gefn yn cael eu defnyddio i gwrdd â gweddill y bwlch yn y gyllideb a bod Treth y Cyngor yn cael ei osod ar 3%. Dywedodd ei fod yn credu mai pwrpas y cronfeydd wrth gefn oedd i amddiffyn gwasanaethau cyhoeddus yn ystod amseroedd anodd yn ariannol. Gwnaeth sylw ar yr angen am newid mewn strategaeth ar lefel Llywodraeth Cymru a'r Deyrnas Unedig ar ariannu gwasanaethau llywodraeth leol yn y dyfodol.

Ategodd y Cyngorydd Mike Peers y safbwyntiau a fynegwyd gan y Cyngorydd Shotton a gwnaeth sylw ar ba mor anodd yw i'r Cyngor geisio cynnal gwasanaethau o dan bwysau cyllidebol a fyddai'n cyflwyno heriau mwy yn y dyfodol. Cefnogodd y cynnydd o 3% yn Nhreth y Cyngor a'r defnydd o gronfeydd wrth gefn a chroesawodd amddiffyn cyllidebau addysg a gwasanaethau cymdeithasol.

Croesawodd y Cyngorydd Chris Bithell y cynnydd o 1.34% (£1.2m) yng nghyllidebau ysgolion yn y cyfnod presennol o lymder a gwnaeth sylw ar ba mor anodd yw i ysgolion ymdrin â'r gostyngiad mewn cyllidebau ac yn benodol ysgolion uwchradd oedd o dan bwysau sylweddol gyda rhai mewn sefyllfa o ddiffyg.

Wrth ymateb i gais gan y Cyngorydd Clive Carver ar Gyllid ar gyfer Gofal Cartref eglurodd y Prif Weithredwr fod y cap presennol wedi ei osod ar £60 yr wythnos (cost taladwy i'r cleient) ac y byddai'n cael ei gynyddu i £70 yr wythnos o Ebrill 2017.

Aeth ymlaen i egluro y byddai'r gwahaniaeth os yw'n cael ei gasglu gan yr holl gleientiaid presennol ar 1 Ebrill 2017 yn arwain at incwm ychwanegol o £0.238m. Byddai'r cap yn cynyddu £10 bob blwyddyn hyd nes y byddai'n cyrraedd £100 a byddai'n darparu incwm ychwanegol i'r Cyngor bob blwyddyn.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cyngorydd Robin Guest ar y cynnydd arfaethedig yn Nhreth y Cyngor a'r defnydd o gronfeydd wrth gefn i bontio'r 'bwlch' cyfeiriodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol at y cyngor a roddwyd yng nghyfarfod Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol a gynhaliwyd ar 20 Ionawr 2017. Cadarnhaodd fod £0.699m eisoes wedi ei gymeradwyo a bod y Crofnegydd Wrth Gefn wedi cwrdd â hynny a byddai angen cwrdd â £0.317m ychwanegol o'r Cronfeydd Wrth Gefn a fyddai'n mynd â hyn yn uwch na'r £2m roedd wedi ei nodi fel canllaw ar gyfer risg uchel. Gwnaeth y Prif Weithredwr sylwadau pellach ar y defnydd o gronfeydd wrth gefn a chyfeiriodd at y canlyniadau i'r gyllideb yn sgil y Dreth Brentisiaeth a chynnydd sylweddol yr Awdurdod Tân mewn blwyddyn.

Gwnaeth y Cyngorydd Gareth Roberts sylwadau ar y pwysau ariannol y dylid ymdrin â nhw yn y dyfodol. Cyfeiriodd at yr Asesiad o Wariant Safonol a mynegodd y farn y dylid cynyddu Treth y Cyngor i 5% i godi'r incwm sydd ei angen i amddiffyn gwasanaethau, a dywedodd fod cronfeydd wrth gefn y Cyngor ar hyn o bryd mor isel ag sy'n bosibl.

Cefnogodd y Cyngorydd David Healey y cynnydd o 3% yn Nhreth y Cyngor. Aeth ati i longyfarch y Prif Weithredwr a'r Swyddogion am eu llwyddiannau clodwiw yn amddiffyn meysydd gwasanaeth yn dilyn gosod y mesurau llym yn ystod y cyfnod anodd. Croesawodd y cynnydd o 1.34% yng nghyllidebau ysgolion a'r ffaith fod cyllidebau gofal cymdeithasol wedi eu hamddiffyn. Hefyd manteisiodd ar y cyfle i ganmol y Prif Weithredwr a Swyddogion am ragweld y dylid ystyried y modelau cyflawni eraill a datblygu strategaeth ar gyfer trosglwyddiadau ased cymunedol i gynnal gwasanaethau ac osgoi cau cyfleusterau. Hefyd aeth ati i longyfarch y Cyngorau Tref a Chymuned a Grwpiau Cymunedol oedd wedi "ymateb i'r her" er mwyn cynnal gwasanaethau o'r fath ar gyfer cymunedau lleol

Diolchodd y Cyngorydd Christine Jones am y buddsoddiad ac am amddiffyn gwasanaethau gofal cymdeithasol a fyddai'n galluogi'r Cyngor i drafod cynnydd teg mewn ffioedd gofal gyda darparwyr.

Ar ôl eu rhoi i bleidlais cymeradwywyd argymhellion y Cabinet.

### **PENDERFYNWYD:**

Fod y Cyngor yn cadw'r cynnydd a gynlluniwyd yn Nhreth y Cyngor yn 3% yn unol â'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig gyda'r bwlch sy'n weddill yn y ffigwr a adroddwyd i'w gyrraedd yn gyfan gwbl gan gronfeydd wrth gefn a balansau i sicrhau cydbwysedd yn y gyllideb.

## **80. RHAGLEN GYFALAF CRONFA'R CYNGOR 2017/18 - 2019/20**

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid – Cyfrifeg Technegol, adroddiad i gyflwyno Rhaglen Gyfalaf Cronfa'r Cyngor ar gyfer cyfnod 2017/18 – 2019/20 ar gyfer ei



gymeradwyo. Dywedodd fod y Cabinet, mewn cyfarfod a gynhaliwyd cyn y Cyngor Sir heddiw, wedi ystyried ac argymhell y cynigion sy'n cael eu cynnwys o fewn yr adroddiad Cabinet a atodwyd gyda'r adroddiad ac roedd y cynigion hefyd wedi eu hystyried gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol ar 20 Ionawr 2017.

Eglurodd y Rheolwr Cyllid - Cyfrifeg Technegol fod y Cabinet wedi mabwysiadu Strategaeth Gyfalaf a Cynllun Rheoli Asedau yn Chwefror 2016 a bod yr adroddiad yn adeiladu ar y strategaeth honno ac yn gosod Rhaglen Gyfalaf Cronfa'r Cyngor ar gyfer 2017/18 a 2019/20. Dywedodd fod tair rhan i'r strategaeth a rhoddodd gyflwyniad ar y cyd gyda'r Prif Swyddog (Newid Sefydliadol 2) oedd yn ymdrin â'r meysydd canlynol:

- 3 rhan Rhaglen Gyfalaf Cronfa'r Cyngor
  - statudol/rheoleiddio
  - asedau wedi eu cadw
  - buddsoddiad
- y cyllid yr amcangyfrifir sydd ar gael
- dyraniadau arfaethedig
- buddsoddiad arfaethedig
- crynodeb rhaglen gyfalaf (wedi ei ariannu'n gyffredinol)
- ymdrin ag unrhyw ddiffyg o ran ariannu
- cynlluniau sy'n cael eu hariannu'n benodol
- crynodeb rhaglen gyfalaf

Diolchodd y Cynghorydd Aaron Shotton i'r Prif Swyddog (Newid Sefydliadol 2) a'r Rheolwr Cyllid - Cyfrifeg Technegol am eu cyflwyniad. Soniodd am yr angen i barhau yn optimistig am y dyfodol ac i gynnal uchelgeisiau fel bod Sir y Fflint yn parhau i fod yn ardal lle roedd pobl yn dymuno byw a gweithio ynddi. Gwnaeth sylw ar y rhaglen gyfalaf uchelgeisiol ar gyfer buddsoddiad mewn isadeiledd ac ysgolion yn ystod y pedair blynedd nesaf a chyfeiriodd at y cynigion o fewn y Rhaglen ar gyfer gwelliannau i ganolfannau hamdden a llyfrgelloedd, yr ymrwymiad i amddiffyn cynlluniau gofal dydd anableddau dysgu yn y Sir yn y dyfodol ac adnewyddu canolfan bresennol Glanrafon yn Queensferry.

Hefyd gwnaeth y Cynghorydd Shotton sylw ar y buddsoddiad cyfalaf a gynigiwyd ar gyfer ysgolion a dywedodd fod hyn yn ddatganiad o fwriad i ymdrin â rhai o'r meysydd allweddol sy'n effeithio ysgolion ac yn ychwanegol i'r Rhaglen Fuddsoddi Ysgolion yr 21ain Ganrif. Hefyd gwnaeth sylw ar y pwysau a'r galw am ofal cymdeithasol a dywedodd fod yr angen am welyau ychwanegol o fewn cartrefi gofal preswyl yn cael ei gydnabod. Ychwanegodd fod ymrwymiad ac uchelgais nid yn unig i amddiffyn darpariaeth bresennol y Cyngor o ran cartrefi gofal ond i gynyddu'r capasiti o bosib gydag adeiladau newydd yn y Sir.

Croesawodd y Cynghorydd Ron Hampson y buddsoddiad mewn gwasanaethau dydd anableddau dysgu a'r bwriad i adnewyddu Glanrafon ac ehangu ac ailwampio yn Arosfa. Cefnogodd Christine Jones hefyd gynigion y cynllun buddsoddi yn ymwneud â Glanrafon yn Queensferry ac Arosfa yn Yr Wyddgrug, oedd yn darparu cyfleusterau gwerthfawr sydd eu hangen yn fawr ar gyfer oedolion diamddiffyn a phlant gydag anableddau dysgu a chorfforol.

Croesawodd y Cynghorydd Carolyn Thomas y buddsoddiad mewn ysgolion a'r ffaith fod rhaglen o welliannau wedi ei chyflwyno ar gyfer toiledau mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. Hefyd mynegodd ei gwerthfawrogiad i'r buddsoddiad i wella ardaloedd chwarae a phwysleisiodd y pwysigrwydd, gan nodi iechyd da fel esiampl, o ddarparu'r cyfle i blant gael mynediad lleol i gyfleusterau i'w galluogi i chwarae y tu allan. Croesawodd y Cynghorydd Thomas y buddsoddiad yn Ysgol Uwchradd Castell Alun i ddod ag adeilad yr ysgol i safon a fyddai'n diddymu'r angen am ddsbarthiadau symudol ar y safle. Hefyd gwnaeth sylw ar fater yr apeliadau yn Ysgol Uwchradd Castell Alun a chyfeiriodd at y pryderon a godwyd yn ymwneud â lleoedd a gofynnodd a ellir rhoi eglurder pellach ar fater y lleoedd.

Hefyd croesawodd y Cynghorydd David Healey y buddsoddiad o £4.6m yn Ysgol Uwchradd Castell Alun gan gynnwys symud y dosbarthiadau symudol ac adnewyddu toiledau'r ysgol.

Cefnogodd y Cynghorydd Kevin Jones y buddsoddiadau arfaethedig yn ymwneud ag Ysgol Gynradd Glan Aber. Hefyd rhoddodd ddiweddariad ar y buddsoddiad a'r cynnydd yn ymwneud â Chanolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref a chadarnhaodd fod safleoedd Yr Wyddgrug a Bwcle ar y trywydd iawn ar gyfer eu cwblhau a'u hailagor cyn y Pasg. Ychwanegodd fod y safle newydd arfaethedig i gymryd lle'r safleoedd presennol yn y Fflint a Chei Connah yn ddibynnol ar gwblhau manylion perchnogaeth a phrosesau cynllunio. Roedd cadarnhad wedi ei dderbyn fod cyllid pellach i gefnogi cwblhau'r tri safle i ansawdd uchel wedi ei dderbyn a fyddai'n galluogi gwella ffigyrau ailgylchu Sir y Fflint ymhellach yn y dyfodol.

Croesawodd y Cynghorydd Chris Bithell hefyd y buddsoddiad arfaethedig ar gyfer estyniad ac ailwampio'r ysgol a dywedodd y byddai hyn yn ymwneud â nifer o gynlluniau sydd ar y gweill ers amser a nododd adnewyddu toiledau'r ysgol, diddymu dosbarthiadau symudol, ac ailosod meysydd chwaraeon synthetig, fel enghreifftiau. Hefyd gwnaeth sylwadau ar y cynlluniau i foderneiddio ysgolion yn y Sir a fyddai'n digwydd o dan Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif a chyfeiriodd at gynlluniau buddsoddi arfaethedig yn Ysgol Uwchradd Cei Connah ac Ysgol Penyffordd, Abbots Lane.

Ar ran preswylwyr Bwcle diolchodd y Cynghorydd Mike Peers i'r Cynghorydd Kevin Jones a'r Prif Weithredwr (Strydwedd a Chludiant) am eu hachos lobiö a'u cais llwyddiannus am arian gan Lywodraeth Cymru ar gyfer safleoedd Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref. Hefyd gwnaeth sylw ar yr wybodaeth a gynhwysir yn yr atodiad i'r adroddiad y byddai angen i'r Cyngor ddefnyddio ei asedau tir ei hun yn y dyfodol i ddenu cronfeydd cyfalaf a cheisiodd gael eglurder ar y meini prawf, strategaeth a threfniadau craffu yn ymwneud â'r defnydd o asedau tir. Gofynnodd hefyd a ellir darparu gwybodaeth ar yr asedau y mae'r Cyngor yn bwriadu cael gwared arnynt rhwng nawr a 2018/19 er mwyn creu'r derbyniadau cyfalaf y cyfeirir ato yn yr adroddiad.

Ymatebodd y Prif Weithredwr, Newid Sefydliadol, i'r pwyntiau a godwyd yn ymwneud â'r asedau y mae'r Cyngor yn berchen arnynt a dywedodd fod amryw fathau o asedau ac nad oedd un maen prawf penodol ar gyfer cael gwared ar asedau. Eglurodd fod asedau'r Cyngor yn cael eu defnyddio ar sawl lefel a rhoddodd enghreifftiau. Gan gyfeirio at fater y derbyniadau cyfalaf a'r rhagamcaniad o £2.2m y cyfeirir ato yn yr adroddiad dywedodd y Prif Weithredwr y byddai, o ganlyniad i

sensitifrwydd masnachol, yn darparu eglurder pellach i'r Cynghorydd Peers yn dilyn y cyfarfod.

Wrth ymateb i ymholiad gan y Cynghorydd Rosetta Dolphin yn ymwneud ag arian ar gyfer manau chwarae ysgol eglurodd y Cynghorydd Aaron Shotton fod y dyraniad cyfalaf o £0.887m y cyfeirir ato yn Nhabl 2 yr adroddiad yn gyllid newydd ychwanegol i'r gyllideb refeniw bresennol. Wrth ymateb i'r cwestiynau pellach a godwyd gan y Cynghorydd Dolphin cadarnhaodd y Prif Weithredwr y byddai'r arian refeniw cyfatebol yn parhau mewn lle.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Derek Butler at bartneriaeth y Cyngor yn Strategaeth Twf Economaidd Gogledd Cymru a dywedodd y byddai hyn yn cael effaith sylweddol ar yr uchelgais a'r weledigaeth ar gyfer Sir y Fflint gyfan ar gyfer y dyfodol. Gwnaeth sylw ar yr angen i gyd-fuddsoddi yn y Strategaeth gyda llywodraethau Cymru a'r Deyrnas Unedig a'r angen i adnabod cyfleoedd i wireddu asedau. Dywedodd y Prif Weithredwr fod buddsoddiad pwysig gan y Deyrnas Unedig a Chymru yn y fantol a bod disgwyl y byddai'r chwe awdurdod lleol yn cyd-fuddsoddi a chyd-fenthyg. Dywedodd y byddai hyn yn bwysau cadarnhaol ar gyfer mynd ymlaen gyda benthyca cyfalaf.

Croesawodd y Cynghorydd Hilary Isherwood y buddsoddiad yng Nghastell Alun ond mynegodd ei siom yn ymwneud â'r diffyg cefnogaeth ar gyfer Ysgol Llanfynydd a Mynydd y Fflint. Soniodd am "ddiffyg gweledigaeth" y Cyngor a'r pwysigrwydd a'r angen i gynnal darpariaeth ysgol yng nghefn gwlad.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Neville Phillips at ddiffyg cyfleusterau parcio ceir mewn ysgolion a dywedodd fod angen ymdrin â hyn yn Rhaglen Ysgolion yr 21ain ganrif.

Amlinellodd y Cynghorwyr Veronica Gay a Richard Lloyd yr angen am fuddsoddiad cyfalaf ar gyfer Ysgol Uwchradd Dewi Sant, Saltney.

Ceisiodd y Cynghorydd Arnold Woolley gael sicrwydd y byddai unrhyw dir sy'n eiddo i'r Cyngor, ac y ceir gwared arno, yn cael ei werthu gyda'r bwriad o wireddu ei botensial yn llawn o ran y farchnad.

Aeth y Prif Weithredwr ati i grynhoi ac ymateb i'r materion oedd wedi eu codi gan Aelodau a chyfeiriodd at yr angen i ymdrin â phryderon yn ymwneud ag adrodd gwerthiant asedau, y sefyllfa leol o gylch derbynadau ac apeliadau yn ymwneud ag Ysgol Uwchradd Castell Alun, buddsoddiad yn Ysgol Uwchradd Dewi Sant, Saltney, arian ar gyfer buddsoddiad i ysgolion ac adolygiadau ardal yn y dyfodol, arian ar gyfer safleoedd Canolfannau Ailgyrchu Gwastraff y Cartref ac arian ar gyfer hamdden.

### **PENDERFYNWYD:**

- (a) Fod y Cyngor yn cymeradwyo'r dyraniad yn Nhabl 2 (paragraff 1.07) o adroddiad y Cabinet yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Chwefror 2017, ar gyfer adrannau Statudol/Rheoleiddio ac Asedau a Gedwir o Raglen Gyfalaf Cronfa'r Cyngor 2017/18 – 2019/20;

- (b) Fod y Cyngor yn cymeradwyo'r cynlluniau a gaiff eu cynnwys yn Nhabl 3 (paragraff 1.20) o adroddiad y Cabinet yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Chwefror 2017, ar gyfer adran fuddsoddiad Rhaglen Gyfalaf Cronfa'r Cyngor 2017/18 – 2019/20;
- (c) Fod y Cyngor yn nodi'r diffyg o ran ariannu cynlluniau ym mlynnyddoedd ariannol 2018/19 a 2019/20 fel y nodir yn adroddiad y Cabinet yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Chwefror 2017. Fod yr opsiynau i ymdrin â hyn gan gynnwys cyfuniad o dderbyniadau cyfalaf yn y dyfodol, grantiau gwahanol, benthyca darbodus neu ail osod cyfnodau cynlluniau yn cael eu hystyried yn ystod 2017/18, a diweddariadau yn cael eu darparu i Aelodau mewn adroddiadau monitro rhaglen gyfalaf yn y dyfodol; a
- (d) Bod datblygiad y Cynllun Rheoli Asedau a'r Strategaeth Gyfalafol hirdymor yn cael ei nodi.

## **81. CYLLIDEB REFENIW 2017/18 A RHAGLEN GYFALAF 2017/18 Y CYFRIF REFENIW TAI**

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Cymuned a Menter) yr adroddiad ar y cynigion terfynol ar gyfer cyllideb Refeniw a Chyfalaf y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer blwyddyn ariannol 2017/18, gan gynnwys cynnydd arfaethedig mewn rhent a ystyriwyd gan y Cabinet mewn cyfarfod a gynhaliwyd cyn y Cyngor Sir heddiw.

Rhoddodd y Prif Swyddog a'r Rheolwr Cyllid a Chyfrifeg Dros Dro gyflwyniad ar y cyd oedd yn trafod y meysydd allweddol canlynol:

- cynnwys
- hunan ariannu
- cynllun busnes 30 mlynedd
- Cyfrif Refeniw Tai
- incwm arall
- taliadau gwasanaeth 2017/18
- Cynigion effeithlonrwydd y Cyfrif Refeniw Tai
- Penderfyniadau buddsoddi y Cyfrif Refeniw Tai / pwysau o ran cost
- Rhaglen gyfalaf y Cyfrif Refeniw Tai 2017/18
- cyllid ar gyfer rhaglen gyfalaf y Cyfrif Refeniw Tai 2017/18
- rhaglen adeiladu tai y cyngor

Diolchodd y Cynghorydd Helen Brown i'r Aelodau am eu gwaith yn craffu Rhaglen Gyfalaf y Cyfrif Refeniw Tai a hefyd diolchodd i Gymdeithas y Preswylwyr a'r Tenantiaid am eu gwaith a'u mewnbwn.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Paul Shotton at Safon Ansawdd Tai Cymru 2012 a gwnaeth sylw ar y dyhead i adeiladu 200 o dai cyngor newydd mewn pum mlynedd. Cyfeiriodd at adeiladu tai cyngor newydd yng Nghei Connah, Y Fflint, Yr Wyddgrug a Choed-llai a dywedodd fod hyn yn gosod esiampl i Gymru a'r Deyrnas Unedig. Hefyd llongyfarchodd y Cynghorydd Paul Cunningham y Cyngor ar y gwaith o adeiladu tai cyngor yn Sir y Fflint. Ategotd y Cynghorydd Andy Dunbobbins y safbwyntiau a

fynegwyd gan y Cyngorwyr Shotton a Cunningham a diolchodd i'r Aelod Cabinet dros Dai a'r Prif Swyddog (Cymuned a Menter) am y gwaith gwych a wnaed.

Soniodd y Cyngorydd Aaron Shotton am fuddsoddiad y Cyngor yn ei stoc tai cyngor; y rhai presennol a'r rhai a ailadeiladwyd. Cyfeiriodd hefyd at y buddsoddiad yng ngwelliannau Safon Ansawdd Tai Cymru a'r gwaith amgylcheddol ac allanol a'r effaith y byddai'r gwelliannau'n ei gael er budd trigolion a chymunedau Sir y Fflint. Cyfeiriodd at y buddsoddiad £7m mewn adeiladu tai cyngor newydd a'r dyhead i adeiladu 200 o dai cyngor newydd yn y blynyddoedd nesaf a'r angen i lobio'r llywodraeth genedlaethol i godi'r cap ar fenthycia ar y nifer o dai newydd y gallai'r Cyngor eu hadeiladu. Soniodd am y galw amlwg am dai cyngor yn lleol ac ar lefel genedlaethol a'r effaith ar fywydau pobl a lles.

Diolchodd y Cyngorydd Richard Lloyd i'r Cyngorydd Helen Brown a Swyddogion am y gwelliannau a wnaed yn ei Ward. Soniodd am lain y garej gan ddweud ei fod wedi ei anwybyddu a bod rhaid ymdrin â'r mater.

Wrth ymateb i bryder a godwyd gan y Cyngorydd Clive Carver rhoddodd y Prif Swyddog eglurhad ar y costau sy'n codi o ganlyniad i'r comisiwn cyfraddau dŵr, a chostau llys.

Gofynnodd y Cyngorydd Marion Bateman sawl eiddo y mae Sir y Fflint yn berchen arnynt ar gyfer preswylwyr hŷn sydd wedi eu lleoli ar ffyrdd sydd heb eu mabwysiadu a gwnaeth sylw ar ddyletswydd gofal y Cyngor. Eglurodd y Prif Swyddog fod nifer o ffyrdd sydd heb eu mabwysiadu ar stadau Sir y Fflint a oedd yn her o ganlyniad i gost cynnal a chadw a mabwysiadu a dywedodd y byddai'n darparu gwybodaeth bellach i'r Cyngorydd Bateman ar y mater hwn yn dilyn y cyfarfod.

Holodd y Cyngorydd Neville Phillips am daliadau gwasanaeth a gofynnodd a yw'r taliad yn cynnwys glanhau ffenestri. Eglurodd y Prif Swyddog mai un o'r rhesymau dros beidio cynnig taliadau gwasanaeth pellach oedd am fod ymgynghori pellach a gwaith i'w wneud o gylch taliadau gwasanaeth gyda thenantiaid. Dywedodd fod tâl yn cael ei godi ar denantiaid newydd am lanhau ffenestri, ond nid ar denantiaid presennol.

### **PENDERFYNWYD:**

Fod y Cyngor yn cymeradwyo argymhellion y Cabinet o'i gyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Chwefror 2017 fel y nodir yn yr adroddiad sydd ynghlwm i adroddiad y Cyngor.

## **82. DANGOSYDDION DARBODUS 2017/18 i 2019/20**

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol adroddiad i gyflwyno argymhellion y Cabinet i'r Cyngor mewn perthynas â gosod y Dangosyddion Darbodus ar gyfer y cyfnod 2017/18 i 2019/20. Rhoddodd wybodaeth gefndir a dywedodd fod y Cod Materion Ariannol yn nodi'r dangosyddion y dylid eu defnyddio a'r ffactorau y dylid eu hystyried wrth baratoi. Roedd manylion pellach wedi eu cynnwys yn yr adroddiad atodedig i'r Cabinet.

Ar ôl eu rhoi i bleidlais, pleidleisiodd Aelodau yn unfrydol o blaid yr argymhellion.

## **PENDERFYNWYD**

- (a) Fod y Cyngor yn cymeradwyo'r Dangosyddion Darbodus ar gyfer 2017/18 – 2019/20 fel y nodwyd yn Adran 1 yr adroddiad i'r Cabinet ar 14 Chwefror 2017; a
- (b) Bod Awdurdod Dirprwyedig yn cael ei roi i'r Rheolwr Cyllid Corfforaethol i weithredu symudiadau rhwng y cyfyngiadau a gytunwyd ar wahân o fewn y cyfyngiad a awdurdodwyd ar gyfer dyled allanol a'r ffin weithredol ar gyfer dyled allanol (paragraffau 1.19 – 1.20 o'r adroddiad i gyfarfod 14 Chwefror 2017 o'r Cabinet).

### **83. STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS 2017/18 AC ADRODDIAD CANOL BLWYDDYN 2016/17**

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol adroddiad i gyflwyno Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2017/18 ar gyfer ei gymeradwyo a hefyd yr Adolygiad Canol blwyddyn Rheoli'r Trysorlys 2016/17 ar gyfer ei gymeradwyo.

Rhoddodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol wybodaeth gefndir a dywedodd fod Aelodau wedi adolygu'r Strategaeth a'r adolygiad canol blwyddyn mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio ar 25 Ionawr 2017, ac yn argymhell i'r Cabinet fod y Cyngor yn cymeradwyo'r ddau. Derbyniodd y Cabinet argymhelliad y Pwyllgor Archwilio a'i gymeradwyo. Cafodd adroddiad y Cabinet, sy'n cynnwys y ddau atodiad, ei atodi i'r adroddiad.

Cynigiodd y Cynghorydd Bernie Attridge dderbyn yr argymhellion fel yr amlinellir yn yr adroddiad. Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Chris Bithell.

Ar ôl eu rhoi i bleidlais, pleidleisiodd Aelodau yn unfrydol o blaid yr argymhellion.

## **PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r dogfennau canlynol:

- Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2017/18
- Adroddiad Canol Blwyddyn Rheoli'r Trysorlys 2016/17

### **84. ISAFSWM DARPARIAETH REFENIW – POLISI 2017/18**

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol adroddiad i geisio cymeradwyaeth y Cyngor i osod y polisi blynyddol ar gyfer Isafswm Darpariaeth Refeniw darbodus ar gyfer ad-dalu dyled, y mae gofyn i awdurdodau lleol wneud hynny bob blwyddyn. Dywedodd fod y Cabinet wedi ystyried a chymeradwyo adroddiad manwl mewn perthynas â gosod Isafswm Darpariaeth Refeniw darbodus ar gyfer ad-dalu'r ddyled a'i fod wedi ei atodi i'r adroddiad.

Cynigiodd y Cynghorydd Bernie Attridge dderbyn yr argymhellion fel yr amlinellir yn yr adroddiad. Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Chris Bithell.

Ar ôl eu rhoi i bleidlais, pleidleisiodd Aelodau yn unfrydol o blaid yr argymhellion.

### **PENDERFYNWYD:**

- (a) Fod Aelodau yn cymeradwyo ar gyfer Cronfa'r Cyngor:
- Opsiwn 3 (Dull Oes Ased) i'w ddefnyddio ar gyfer cyfrif yr Isafswm Darpariaeth Refeniw ym mlwyddyn ariannol 2017/18 ar gyfer cydbwysu gwariant cyfalaf sy'n ddyledus wedi ei gyllido o fenthycia cefnogol wedi ei osod ar 31 Mawrth 2016. Bydd yn cael ei gyfrif yn ôl y dull 'llinell syth' dros 50 mlynedd.
  - Opsiwn 3 (Dull Oes Ased) i'w ddefnyddio i gyfrif yr Isafswm Darpariaeth Refeniw yn 2017/18 ar gyfer yr holl wariant cyfalaf wedi ei ariannu gan fenthycia cefnogol o 1 Ebrill 2016 ymlaen. Bydd yn cael ei gyfrif yn ôl y dull 'llinell syth' neu flwydd-dal (lle'n briodol) dros y nifer briodol o flynyddoedd, yn ddibynnol ar y cyfnod o amser y mae'r gwariant cyfalaf yn debygol o greu buddion.
  - Opsiwn 3 (Dull Oes Ased) i'w ddefnyddio i gyfrif yr Isafswm Darpariaeth Refeniw yn 2017/18 ar gyfer yr holl wariant cyfalaf wedi ei ariannu gan fenthycia (darbodus) nad yw wedi ei gefnogi neu drefniadau credyd.
- (b) Fod Aelodau'n cymeradwyo ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai:-
- Opsiwn 2 (y Dull Nawdd Cyfalaf Gofynnol) gellir ei ddefnyddio ar gyfer cyfrif Isafswm Darpariaeth Refeniw y Cyfrif Refeniw Tai yn 2017/18 ar gyfer yr holl wariant cyfalaf sy'n cael ei ariannu gan ddyled.
- (c) Fod Aelodau yn cymeradwyo fod yr Isafswm Darpariaeth Refeniw ar fenthyciadau gan y Cyngor i NEW Homes i adeiladu cartrefi fforddiadwy drwy'r Rhaglen Tai ac Adfywio Strategol (sy'n gymwys fel gwariant cyfalaf yn nhermau cyfrifeg) fel a ganlyn:-
- Ni wneir Isafswm Darpariaeth Refeniw yn ystod y cyfnod adeiladu (sy'n fyr) gan nad yw'r ased mewn defnydd ac nad oes unrhyw fudd o'i ddefnydd.
  - Unwaith mae'r asedau'n cael eu defnyddio, bydd ad-daliadau cyfalaf yn cael eu gwneud gan NEW Homes. Bydd Isafswm Darpariaeth Refeniw y Cyngor yn gyfartal â'r ad-daliadau a wneir gan NEW Homes. Bydd yr ad-daliadau a wneir gan NEW Homes yn cael eu dosbarthu, yn nhermau cyfrifeg, fel derbyniadau cyfalaf, ac ni ellir defnyddio'r rhain ddim ond i ariannu gwariant cyfalaf neu ad-dalu dyled sy'n ffurf o isafswm darpariaeth refeniw. Bydd yr ad-daliad cyfalaf/derbyniadau cyfalaf yn cael eu neilltuo i ad-dalu dyled, a dyma yw polisi Isafswm Darpariaeth Refeniw y Cyngor i ad-dalu'r benthyciad.

## **85. AELODAU CYFETHOLEDIG**

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) adroddiad i gytuno ar benodi aelodau cyfetholedig i'r Pwyllgorau Safonau ac Archwilio.

Darparodd y Prif Swyddog wybodaeth gefndir a dywedodd fod cyfnod y ddau aelod cyfetholedig presennol yn dod i ben ym Mai 2017. Eglurodd fod y ddau aelod yn gymwys i gael eu hailbenodi am dymor arall ac wedi hynny bod rhaid iddynt roi'r gorau i'r swydd. Roedd y ddau aelod wedi gweithio yn ddiwyd yn eu rôl ac wedi gwneud cyfraniad sydd o fudd i drefn lywodraethu'r Cyngor, ond, dim ond yr aelod ar y Pwyllgor Safonau oedd yn dymuno cael ei ail ethol. Dywedodd y Prif Swyddog fod yna angen felly am broses recriwtio ar gyfer aelod cyfetholedig arall ar y Pwyllgor Archwilio.

Gofynnodd y Cynghorydd Aaron Shotton am anfon llythyr o ddiolch gan y Cadeirydd, ar ran y Cyngor, i Paul Williams am ei waith caled a'i ymdrechion ar y Pwyllgor Archwilio.

Gwnaeth y Cynghorydd Mike Peers sylw ar gost hysbysebu swyddi gwag yn y wasg leol, fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad, a gofynnodd a oedd yna opsiwn mwy effeithlon a chost effeithiol ar gael, gan gyfeirio at hysbysebu ar wefan y cyngor ei hun fel enghraifft. Eglurodd y Prif Swyddog y sefyllfa o ran sut y gellir ysgwyddo'r costau is ac uwch ac eglurodd fod y ddeddfwriaeth yn benodol yn y ffaith fod gofyn i'r Cyngor hysbysebu'r lleoedd gwag drwy'r wasg mewn papur newydd lleol ac nid yn unig drwy'r we. Eglurodd y byddai'r lleoedd gwag yn cael eu cynnwys ar wefan y Cyngor i ehangu'r cyfleoedd i ymgeiswyr addas i'w hystyried ac ymgeisio.

Talodd y Cynghorydd Ian Dunbar deyrnged i Paul Williams a diolchodd iddo am ei gyfraniad gwerthfawr i waith y Pwyllgor Archwilio.

### **PENDERFYNWYD:**

- (a) Fod y Cyngor yn ail benodi Rob Dewey i'r Pwyllgor Safonau am 4 blynedd:
- (b) Fod y Cadeirydd yn anfon llythyr o ddiolch ar ran y Cyngor i Paul Williams am ei waith a'i ymdrechion ar y Pwyllgor Archwilio; a
- (c) Bod y Cyngor yn hysbysebu am aelod cyfetholedig newydd ar y Pwyllgor Archwilio a bod ymgeiswyr yn cael eu cyfweld gan banel yn cynnwys Arweinydd y Cyngor, Cadeirydd Archwilio, Swyddog yr adran 151, a'r Swyddog Monitro.

## **86. Y RHEOL CHWE MIS**

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) adroddiad i geisio cymeradwyaeth y Cyngor i barhad yn absenoldeb dau Aelod. Eglurodd pan oedd Aelod wedi bod yn absennol o gyfarfod, neu'n debygol o fod yn absennol, am gyfnod o chwe mis gall y Cyngor gymeradwyo'r absenoldeb. Dywedodd fod dau Aelod ar hyn o bryd mewn sefyllfa lle nad oeddent wedi gallu mynychu cyfarfod am rai misoedd ac felly argymhellwyd fod y Cyngor yn cymeradwyo eu habsenoldeb hyd ddiwedd oes y Cyngor hwn.



Ar ôl eu rhoi i bleidlais, pleidleisiodd Aelodau yn unfrydol o blaid yr argymhellion.

**PENDERFYNWYD:**

Fod absenoldeb y Cynghorwyr Alex Aldridge ac Alison Halford yn cael ei gymeradwyo hyd ddiwedd oes y Cyngor hwn.

**87. AELODAU O'R WASG A'R CYHOEDD YN BRESENNOL**

Roedd un aelod o'r wasg a dau aelod o'r cyhoedd yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 2.00pm a gorffennodd am 4.44pm)

.....  
**Cadeirydd**

Mae'r dudalen hon yn wag yn bwrpasol

**CYNGOR SIR Y FFLINT**  
**1 MAWRTH 2017**

Cofnodion cyfarfod Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, dydd Mercher, 1 Mawrth 2017.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Peter Curtis (Cadeirydd)**

Cynghorwyr: Bernie Attridge, Glyn Banks, Haydn Bateman, Marion Bateman, Chris Bithell, Helen Brown, Derek Butler, David Cox, Paul Cunningham, Ron Davies, Adele Davies-Cooke, Alan Diskin, Glenys Diskin, Rosetta Dolphin, Ian Dunbar, Andy Dunbobbin, Brian Dunn, Carol Ellis, David Evans, Veronica Gay, Ron Hampson, George Hardcastle, Cindy Hinds, Ray Hughes, Dennis Hutchinson, Joe Johnson, Christine Jones, Richard Jones, Colin Legg, Brian Lloyd, Richard Lloyd, Mike Lowe, Dave Mackie, Nancy Matthews, Hilary McGuill, Sara Parker, Mike Peers, Vicky Perfect, Neville Phillips, Mike Reece, Gareth Roberts, Ian Roberts, David Roney, Tony Sharps, Aaron Shotton, Paul Shotton, Ian Smith, Nigel Steele-Mortimer, Owen Thomas, David Wisinger ac Arnold Woolley.

**YMDDIHEURIADAU:**

Cynghorwyr: Alex Aldridge, Clive Carver, Chris Dolphin, Robin Guest, Alison Halford, David Healey, Hilary Isherwood, Rita Johnson, Phil Lightfoot, Ann Minshull, Billy Mullin, Carolyn Thomas, David Williams, Sharon Williams a Matt Wright

**HEFYD YN BRESENNOL:**

Y Prif Weithredwr; Prif Swyddog (Llywodraethu); Prif Swyddog (Cymuned a Menter); Prif Swyddog (Cynllunio a'r Amgylchedd); Prif Swyddog (Newid Sefydliadol); Rheolwr Cyllid Corfforaethol; Uwch Reolwr, Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol; Rheolwr Refeniw; Rheolwr Cronfa Bensiwn Clwyd; Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd; Rheolwr Tîm – Gwasanaethau Pwyllgor a Swyddog Pwyllgor.

**88. 1) CYFLWYNIAD**

Croesawodd y Cadeirydd Melville Evans, Denise Naylor, Darren Brimble ac Ian Edwards (Cyflogeion y Cyngor), yn ogystal â Michael Cunningham (Wates Residential) a'u llongyfarch ar gydnabod Llys Custom House yng nghategori'r 'Datblygiad Newydd' yng Ngwobrau Tai Cymreig y Sefydliad Tai Siartredig. Hwn oedd y datblygiad cyntaf yn rhaglen Partneriaeth Tai ac Adfywio Strategol uchelgeisiol y Cyngor i adeiladu 500 o dai cyngor a thai fforddiadwy ar draws y sir mewn pum mlynedd, gan ddefnyddio Safon Tai Sir y Fflint sydd wedi ei gymeradwyo gan y Cyngor ac yn cynnwys cynllun o ansawdd uchel.

Diolchodd y Cynghorydd Aaron Shotton i bawb fu'n rhan o hyn o dimau ar draws y cyngor a Wates Residential, y partner a benodwyd gan greu perthynas wych. Roedd wedi bod yn falch o fynychu'r seremoni Gwobrau Tai, lle mai Sir y Fflint oedd yr unig awdurdod lleol i fod â thai newydd a gafodd eu cydnabod yn y gwobrau a dywedodd mai'r prosiect hwn oedd dechrau'r rhaglen Partneriaeth Tai ac Adfywio Strategol i adfywio cymunedau ar draws Sir y Fflint.

Diolchodd y Cynghorydd Helen Brown i'r tîm o swyddogion a chynrychiolwyr y Ffederasiwn Tenantiaid am eu gwaith ar Safon Tai Sir y Fflint, a chroesawodd y Cynghorydd Paul Shotton y defnydd newydd o'r safle a arferai fod yn ysgol.

Fel Aelod lleol, dywedodd y Cynghorydd Brian Dunn fod adborth cadarnhaol wedi ei roi gan denantiaid newydd oedd yn byw o fewn y cynllun newydd a chanmolodd y lefel o ymgynghori drwy gydol y broses.

**89. DATGAN CYSYLLTIAD**

Yn dilyn cyngor a roddwyd gan y Prif Swyddog (Llywodraethu), fe wnaed y datganiadau canlynol:

Eitem 11 yn y rhaglen 'Mesur yr Undebau Llafur (Cymru) – datganwyd cysylltiad personol gan y Cyngorwyr Bernie Attridge, Peter Curtis, Derek Butler, Mike Lowe, Mike Reece, Ian Roberts, Aaron Shotton ac Ian Smith fel aelodau o Undebau Llafur amrywiol. Hefyd datganodd y Prif Weithredwr a'r Prif Swyddog (Llywodraethu) gysylltiad personol.

Eitem 15 yn y rhaglen 'Cyfuno Buddsoddiadau Pensiwn yng Nghymru' – cofnodwyd cysylltiad personol ar gyfer y Cyngorwyr Chris Bithell, Paul Cunningham, Peter Curtis, Cindy Hinds, Nancy Matthews, Ian Roberts ac Ian Smith.

Ar eitem 8 (iii) 'Rhybudd o Gynnig' yn y rhaglen a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Helen Brown, datganodd Dennis Hutchinson gysylltiad personol sy'n rhagfarnu fel perchennog cwmni bws mini yn darparu cludiant ysgol yn y sir.

**90. DEISEBAU**

Ni dderbyniwyd dim.

**91. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD**

Ni dderbyniwyd dim.

**92. CWESTIYNAU**

Ni dderbyniwyd dim.

**93. CWESTIYNAU AR GOFNODION Y PWYLLGOR**

Ni dderbyniwyd dim.

**94. RHYBUDD O GYNNIG**

(1) Derbyniwyd Rhybudd o Gynnig gan y Cynghorydd Andy Dunbobbin

'Gwneud i'r Cyfrifiad nesaf gyfri ar gyfer ein cymuned Lluoedd Arfog. Cynnig Drafft yn Cefnogi Ymgyrch 'Count Them In' Mae'r Cyngor hwn yn nodi:

- (i) Fod yr hyn sy'n ddyledus i gymuned y Lluoedd Arfog o fewn Cyngor Sir y Fflint fel y nodir yng Nghyfamod y Lluoedd Arfog; na ddylai cymuned y Lluoedd Arfog wynebu anfantais o ran darpariaeth gwasanaethau a dylid rhoi ystyriaeth arbennig mewn rhai achosion, yn enwedig i unigolion sydd wedi rhoi'r mwyaf.
- (ii) Diffyg ystadegau pendant a chynhwysfawr ar faint neu ddemograffig cymuned y Lluoedd Arfog o fewn Cyngor Sir y Fflint. Mae hyn yn cynnwys personél Rheolaidd ac Wrth Gefn, cyn filwyr, a'u teuluoedd.
- (iii) Byddai argaeledd data o'r fath o gymorth mawr i'r Cyngor, asiantaethau partner lleol, y sector gwirfoddol a'r Llywodraeth genedlaethol wrth gynllunio a darparu gwasanaethau i fynd i'r afael ag anghenion unigryw cymuned y Lluoedd Arfog o fewn Cyngor Sir y Fflint.

O ystyried yr uchod, mae'r Cyngor hwn yn cefnogi ac yn hyrwyddo galwad y Lleng Brydeinig Frenhinol i gynnwys pwnc newydd yng Nghyfrifiad 2021 sy'n ymwneud â gwasanaeth milwrol ac aelodaeth o gymuned y Lluoedd Arfog. Rydym yn galw ymhellach ar Senedd y DU a fydd yn cymeradwyo holiadur terfynol y Cyfrifiad drwy ddeddfwriaeth yn 2019, i sicrhau y bydd Cyfrifiad 2021 yn cynnwys cwestiynau'n ymwneud â chymuned y Lluoedd Arfog.

Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Bernie Attridge.

Cafodd pwysigrwydd y Cynnig ei gydnabod gan y Cynghorydd Aaron Shotton a siaradodd am gefnogaeth y Cyngor i gymuned y Lluoedd Arfog drwy'r Cyfamod a'r Diwrnod Lluoedd Arfog blynyddol. Mae'r gyfran uchaf o gyn filwyr y Lluoedd Arfog yng Ngogledd Cymru yn byw yn Sir y Fflint a byddai'r dull a nodir yn yr ymgyrch genedlaethol 'Count Me In' yn helpu i ddarparu data cywir ar aelodau eraill o gymunedau'r Lluoedd Arfog a fyddai'n elwa o waith y Cyfamod. Roedd y Cynghorydd Shotton yn cydnabod fod rhannu gwybodaeth yn y Cyfrifiad yn ddibynnol ar ddewis personol ac aeth ymlaen i gyfeirio at drafodaethau cenedlaethol ar yr angen i adnabod cymunedau'r Lluoedd Arfog i alluogi targedu cefnogaeth.

Cytunodd y Cynghorydd Hilary McGuill gyda'r angen am gofnodi data yn gywir er mwyn targedu cefnogaeth ar gyfer y rhai yn y lluoedd milwrol a'r rhai sy'n gadael y gwasanaeth. Ond, roedd ganddi amheuaeth ar hyn o bryd a oedd nodi unigolion o'r fath a'u lleoliadau yn y Cyfrifiad yn orfodol o ganlyniad i bryderon am ddiogelwch yr wybodaeth hon. Nododd ei bwriad i atal ei phleidlais oni bai fod yna eglurder fod yr ymatebion i'r Cyfrifiad yn ddewisol.

Wrth gefnogi'r Cynnig talodd y Cynghorydd Nigel Steele-Mortimer deyrnged i waith y Lleng Brydeinig Frenhinol. Siaradodd y Cynghorydd David Evans am yr amrediad o gefnogaeth sydd ar gael i unigolion sy'n gadael y Lluoedd Arfog, gan awgrymu y byddai eitem ar hyn yn ddefnyddiol yn y dyfodol.

Teimlai'r Cadeirydd mai newid diwylliant oedd y brif her wrth adael y Lluoedd Arfog, yn enwedig i'r rhai sy'n gadael gwasanaeth hirdymor. Nododd ei gefnogaeth i'r Cynnig ac amcanion y Cyngor o ran cefnogi personél y Lluoedd Arfog a'u teuluoedd.

Pleidleisiwyd o blaid y Rhybudd o Gynnig.

(2) Derbyniwyd Rhybudd o Gynnig gan y Cynghorydd David Roney

'I gydnabod rhaglen adeiladu tai rhagorol y Cyngor, lle bydd Cyngor Sir y Fflint yn adeiladu 200 o gartrefi dros 5 mlynedd, gofynnaf i'r Cyngor hwn osod paneli solar ar yr holl dai sy'n cael eu hadeiladu ar hyn o bryd ac yn y dyfodol i wneud y tai hyn yn well fyth a gosod esiampyl i'r diwydiant adeiladu. Hefyd gofynnaf i'r Cyngor hwn wneud cais i Lywodraeth bresennol San Steffan a Llywodraethau'r dyfodol i gynyddu'r tariff cyflenwi trydan i annog mwy o ddefnydd o'r ffynhonnell lân ac adnewyddadwy yma o ynni.

I gefnogi hyn cyfeiriodd y Cynghorydd Roney at y diffyg cynnydd o ran ynni adnewyddadwy a bwysleisiwyd ar lefel weinidogaethol. Dywedodd y byddai'r costau cychwynnol yn ymwneud â gosod paneli solar i dai newydd yn darparu ynni glân a byddent yn talu amdanynt eu hunain ymhen amser.

Fel yr Aelod Cabinet dros Dai, dywedodd y Cynghorydd Helen Brown fod y Cyngor wedi cydnabod y buddiannau ddaw o ynni adnewyddadwy ers amser, a dangosir hynny yn y buddsoddiad sylweddol mewn amrediad o gynlluniau. Roedd y dull a fabwysiadwyd gan y Cyngor o ran blaenoriaethu'r gwaith o osod paneli solar mewn ardaloedd gwledig a byngalos i gael y budd gorau posib ac mae wedi creu cyllid sylweddol i'w fuddsoddi mewn cynlluniau ychwanegol yn ogystal â sicrhau arbedion i denantiaid. Byddai rhaglenni ynni domestig yn y dyfodol yn ddibynnol ar gyllid gan Lywodraeth Cymru. Roedd Safon Tai Sir y Fflint ar gyfer tai newydd eu hadeiladu wedi ei ddatblygu gyda phartneriaid allweddol gyda ffocws penodol ar ansawdd y cynllun, defnydd ar gyfer oes gyfan a lleihau'r defnydd o ynni ac allyriadau CO2. Byddai'r gost o osod paneli solar ymhob un o'r 200 o gartrefi newydd y Cyngor o fewn y rhaglen yn creu pwysau ychwanegol o ran cost o £0.5m.

Cefnogodd y Cynghorydd Aaron Shotton y Cynnig a chynigiodd fân welliant i'r ail frawddeg i ddweud ' Gofynnaf i'r Cyngor hwn alw ar y Cabinet i osod paneli solar...' i adlewyrchu fod hyn yn benderfyniad y Cabinet. Roedd ymrwymiad wedi ei wneud i adolygu Safon Tai Sir y Fflint i nodi gwelliannau pellach wrth i'r rhaglen fynd yn ei flaen, ac felly roedd yn amserol i'r Cabinet i dderbyn adroddiad i werthuso'r cynnydd hyd yma ac i ystyried y potensial am baneli solar ar ddatblygiadau newydd yn y dyfodol. Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Attridge.

Nododd y Cynghorydd Roney ei fod yn cytuno â'r gwelliant hwn.

Dywedodd y Cynghorydd Owen Thomas nad oedd yr holl denantiaid yn derbyn y budd o'u paneli solar. Cynigiodd y Prif Swyddog (Cymuned a Menter) i rannu gwybodaeth ac eglurodd fod paneli solar yn cynnig budd o ran yr amgylchedd yn ogystal â chynnig arbedion o ran cost tanwydd i denantiaid, yn arbennig y rhai oedd adref am gyfnodau hir yn ystod y dydd. O ran yr olaf o'r rhain, dangosodd tystiolaeth ar draws Cymru fod nifer o breswylwyr gyda phaneli solar yn dewis cadw eu gwres am gyfnodau hirach, oedd yn golygu nad oeddent yn cael yr arbedion o ran cost tanwydd. Ond roedd yn anodd cymharu'r buddion o ran cost o ganlyniad i brisiau tanwydd anwadal ac mae'n bosib fod angen i'r Cyngor wneud mwy o waith gyda thenantiaid o ran deall hyn.

Ceisiodd y Cynghorydd Mike Peers gael eglurder ynglŷn ag a oedd y Cynnig llawn yn ddibynnol ar benderfyniadau'r Cabinet. Roedd ganddo bryderon y gellid ystyried y geiriad diwygiedig a awgrymwyd fel rhwymedigaeth gan y Cyngor a chynigiodd welliant gwahanol ar gyfer yr ail frawddeg oedd yn dweud 'Gofynnaf i'r Cabinet hwn ystyried gosod paneli solar...' i ystyried yr holl elfennau gan gynnwys Safon Tai Sir y Fflint, costau gosod, y cyfnod ad-dalu a'r tariff cyflenwi trydan.

Pan ofynnwyd iddo wneud hynny, ailadroddodd y Cynghorydd Aaron Shotton ei welliant a fyddai'n galluogi'r Cabinet i dderbyn ac ystyried adroddiad ar y newidiadau i Safon Tai Siir y Flint. Awgrymodd y Cynghorydd Peers y byddai hyn yn cael ei adlewyrchu'n fwy clir wrth gynnwys y geiriau 'Cabinet' ac 'ystyried'.

Wrth ymateb awgrymodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) y geiriau 'Gofynnaf i'r Cyngor hwn alw ar y Cabinet i ystyried gosod paneli solar...' fel geiriad priodol i ymgorffori'r pwyntiau a godwyd a bwriad y Cynnig.

Nid oedd y Cynghorydd Rooney yn derbyn y geiriad diwygiedig hwn gan y teimlai ei fod yn tynnu oddi wrth ei Gynnig. Nododd ei fod yn cytuno â'r diwygiad a gynigiwyd gan y Cynghorydd Aaron Shotton.

Cynigiodd y Cynghorydd Peers y geiriad a awgrymwyd gan y Prif Swyddog fel gwelliant ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Gareth Roberts.

Wrth gefnogi'r gwelliant a gynigiwyd gan y Cynghorydd Peers, pwysleisiodd y Cynghorydd Richard Jones bwysigrwyd ystyried yr holl faterion yn ymwneud â hyn er mwyn sicrhau'r canlyniadau cywir o ran paneli solar. Am resymau tebyg cefnogodd y Cynghorydd Glyn Banks y gwelliant hefyd gan nodi safle'r eiddo fel prif ffactor.

Wrth siarad ar yr un gwelliant, cytunodd y Cynghorydd Aaron Shotton ag egwyddorion y Cynnig oedd yn ychwanegu at record eang y Cyngor ar brosiectau ynni. Eglurodd fwriad ei welliant ei hun i alluogi adolygiad llawn gan y Cabinet ar y mater a dywedodd fod ail ran y Cynnig yn benderfyniad y Cyngor.

Cadarnhaodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) fod gosod paneli solar ar gartrefi newydd yn benderfyniad y Cabinet ac y byddai adroddiad cytbwys yn cael ei ystyried a fyddai'n ystyried yr holl ffactorau.

Cefnogodd y Cynghorydd Derek Butler egwyddor y Cynnig a fyddai'n cael ei ystyried yn llawn gan y Cabinet. Dywedodd y Cynghorydd Nancy Matthews y dylai sylw'r Cynghorydd Banks ar wyneb wedd y tai newydd ffurfio rhan o'r Cynnig.

Pleidleisiwyd o blaid y gwelliant a gynigiwyd gan y Cynghorydd Peers a daeth yn Gynnig parhaol.

Cyn dechrau'r eitem nesaf, gadawodd y Cynghorydd Dennis Hutchinson yr adeilad a dychwelodd yn dilyn y drafodaeth.

### (3) Rhybudd o Gynnig a dderbyniwyd gan y Cynghorydd Helen Brown

'Rydym ni Cyngor Sir y Fflint yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Senedd i sicrhau bod deddfwriaeth yn cael ei roi mewn grym i sicrhau mai diogelwch plant sy'n dod yn gyntaf wrth deithio i ac o'r ysgol.

Rydym ni eisiau bod yn dawel ein meddyliau bod ein plant yn ddiogel wrth deithio i ac o'r ysgol. Rydym eisiau bysiau ysgol dynodedig gyda chyllid priodol er mwyn i blant cymwys allu teithio'n ddiogel i ac o'r ysgol, pob un â gwregys diogelwch ei hun, a heb orfodi unrhyw blentyn i deithio ar fysiau cyhoeddus gorlawn. Mae'n rhaid i ddiogelwch plant ddod yn gyntaf.

Mae gan ein plant yr hawl i deimlo'n ddiogel. Gall bysiau cyhoeddus orlenwi ac nid yw plant bob amser yn teimlo'n ddiogel. Mae bysiau cyhoeddus ar gyfer defnydd cyhoeddus, nid ydynt yn bwrpasol ar gyfer defnydd ysgol. Nid all Cyngorau Lleol ar hyn o bryd gynnal gwasanaethau diogel, addas a phriodol ar gyfer plant ar hyd llwybrau bysiau cyhoeddus sy'n gweithredu'n fasnachol.

Gofynnwn i'r Cyngor hwn weithio gyda'r ddwy Lywodraeth i sicrhau'r newidiadau angenrheidiol i'r deddfwriaeth a'r ddarpariaeth gyfredol.'

Wrth ddarparu gwybodaeth gefndir talodd y Cynghorydd Brown deyrnged i ddewrder Lynne Chick am ei hymgyrch ddiogelwch er cof am ei merch Louise Oldfield a fu farw mewn damwain fws. Galwodd am gefnogaeth Aelodau i geisio sicrhau newid yn y deddfwriaeth a darpariaeth cyllid ar gyfer bysiau ysgol dynodedig, gan ddweud fod trafodaethau'n cael eu cynnal ar wneud gyrwyr bysiau masnachol yn ddarostyngedig i'r un gwiriadau â'r rhai gaiff gytundeb gan yr awdurdodau lleol. Eiliwyd y Cynnig.

Fel Aelod Cabinet dros yr Amgylchedd, croesawodd y Cynghorydd Bernie Attridge y cyfle i ymdrin ag anghysonderau yn y sefyllfa statudol bresennol ar gludiant ysgol ac i geisio cael cysondeb ar wiriadau, hyfforddiant a'r disgwyliadau ar faterion diogelwch oedd eisoes yn berthnasol i yrwyr tacsï cofrestredig. Wrth gefnogi'r Cynnig, aeth ati i gydnabod amcanion yr ymgyrch a arweiniwyd gan Lynne Chick yn blaenoriaethu diogelwch a lles plant a phobl ifanc.

Cefnogodd y Cynghorydd Owen Thomas y Cynnig a theimlai y dylai hefyd ymgorffori llwybrau diogel i'r ysgol a diogelwch gyrwyr bws. Dywedodd y Cynghorydd Attridge fod y rhain yn faterion ar wahân ac na ddylent ffurfio rhan o'r Cynnig.

Wrth ymateb i ymholiad gan y Cynghorydd Richard Jones, eglurodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) fod geiriad y Cynnig, yn arbennig yn y frawddeg olaf, yn awgrymu y byddai'r amcan o weithio gyda'r ddwy Lywodraeth yn cynnwys ceisio'r cyllid angenrheidiol i gefnogi unrhyw newidiadau.

Pleidleisiwyd yn unfrydol o blaid y Cynnig.



## **PENDERFYNWYD:**

- (a) Fod y Rhybudd o Gynnig ar gefnogi'r ymgyrch genedlaethol 'Count Them In' yn cael ei gefnogi;
- (b) Fod y Rhybudd o Gynnig diwygiedig i alw ar y Cabinet i ystyried gosod paneli solar yn cael ei gefnogi; a
- (c) Bod y Rhybudd o Gynnig ar gyllid ar gyfer cludiant ysgol dynodedig yn cael ei gefnogi.

## **95. GOSOD TRETH Y CYNGOR AR GYFER 2017-18**

Cyflwynodd y Rheolwr Refeniw yr adroddiad i osod Treth y Cyngor ar gyfer 2017-18 yn ffurfiol a hynny o fewn yr amserlen a ddisgwylir. Roedd y penderfyniad ar Dreth y Cyngor yn cynnwys praesept y Cyngor Sir o £70,122,877 yn ogystal â phraeseptiau a gasglwyd ar ran Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a'r Cyngorau Tref/Cymuned. Roedd taliadau/lefelau Treth y Cyngor a nodwyd yn yr adroddiad wedi eu cymeradwyo fel rhan o'r cynigion terfynol ar y gyllideb ar 14 Chwefror 2017, gyda'r cynnydd arfaethedig o 3% ym mhraesept y Cyngor Sir sy'n gyfystyr â £1,103.55 y flwyddyn ar eiddo Band 'D'. Fel y cytunwyd ym Mawrth 2016, byddai'r cynllun premiwm Treth y Cyngor hefyd yn weithredol, er mwyn helpu i ddod â thai gwag yn ôl i ddefnydd.

Teimlai'r Cyngorydd Mike Peers y dylai'r Cyngor gael ei ad-dalu gan y Comisiwn Heddlu a Throsedd am yr adnoddau a ddefnyddiwyd wrth gasglu'r swm praesept blynyddol hwnnw. Dywedodd y Rheolwr Refeniw fod gan y Cyngor ddyletswydd statudol i gasglu tair elfen Treth y Cyngor ac nad oedd deddfwriaeth yn caniatáu codi tâl i wneud hynny. Nododd y gwall teipograffyddol yn y rhestr o benderfyniadau oedd wedi eu hatodi i'r adroddiad a ddylai fod wedi cyfeirio at 2017-18.

Cefnogwyd yr armgyhellion yn yr adroddiad yn ffurfiol gan y Cyngorydd Aaron Shotton a cawsant eu heilio.

Ar braesept Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd, dywedodd y Cyngorydd Carol Ellis fod siom ymhlith rhai preswylwyr tuag at lefel y gwasanaeth a dderbyniwyd gan yr Heddlu a diffyg presenoldeb yr Heddlu, mater oedd wedi ei godi gan Gyngor Tref Bwcle. Awgrymodd y Prif Weithredwr y gallai Aelodau fod yn dymuno gwahodd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a Phrif Gwnstabl Heddlu'r Gogledd i gyfarfod y Cyngor yn gynnar yn y tymor newydd i drafod unrhyw bryderon.

Croesawodd y Cyngorydd Tony Sharps yr awgrym hwn a datganodd gefnogaeth i sylwadau'r Cyngorwyr Peers ac Ellis. Wrth ymateb i ymholiad, dywedodd y Rheolwr Refeniw fod y polisi fframwaith newydd a gymeradwywyd gan y Cyngor ac a gyflwynwyd o 2017/18 yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl sefydliadau gwirfoddol dielw i wneud cyfraniad o 20% tuag at eu rhwymedigaeth cyfradd fusnes. Teimlai'r Cyngorydd Sharps fod hyn yn annheg ar y sefydliadau bach, yn arbennig mewn ardaloedd gwledig, ac y dylid adolygu hyn. Eglurodd y Rheolwr Refeniw fod y fframwaith mabwysiedig yn caniatáu i gais gael ei wneud am ryddhad ardrethi yn ôl

disgresiwn gan fusnesau bach, ond dim ond yn rhannol y caiff hyn ei gyllido gan Lywodraeth Cymru. Mae gwefan y Cyngor hefyd yn darparu manylion am y cynllun gostyngiad caledi ar dreth.

#### **PENDERFYNWYD:**

- (a) Gosod Treth y Cyngor 2017-18 fel y nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad;
- (b) Fod parhau â'r polisi o beidio darparu gostyngiad yn lefel ffioedd Treth y Cyngor am ail gartrefi a chartrefi gwag hirdymor yn cael ei gefnogi. Hefyd lle nad oes eithriadau, i godi'r gyfradd Premiwm Treth y Cyngor o 50% yn uwch na chyfradd safonol Treth y Cyngor am ail gartrefi ac ag anheddau gwag hirdymor o 2017-18.
- (c) Fod cymeradwyaeth yn cael ei roi i swyddogion dynodedig i fynd ymlaen â chamau cyfreithiol ac ymddangos ar ran y Cyngor yn Llys yr Ynadon am drethi nad ydynt wedi eu talu.

#### **96. GWEITHIO RHANBARTHOL A'R PAPUR GWYN ' DIWYGIO LLYWODRAETH LEOL: CADERNID AC ADNEWYDDIAD'**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad ar y Papur Gwyn a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru oedd yn ddatganiad o fwriad ar gyfer dyfodol llywodraeth leol yng Nghymru a hynny yn lle'r Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) cynharach gan y Llywodraeth flaenorol. Rhoddodd gyflwyniad yn trafod y meysydd canlynol:

- cefndir
- pwyntiau sy'n gorgyffwrdd
- cynnwys y Papur Gwyn
- beirniadaeth o'r Papur Gwyn
- ein hatgoffa o'r hyn ddywedom ni wrth ymateb i'r Mesur diwethaf
- Rhan 2: Gweithio Rhanbarthol
- Rhan 3: Uno Gwirfoddol
- Rhan 4: Arweinyddiaeth Leol
- Rhan 5: Ardaloedd Arweiniol
- Rhan 6: Cynghorau Cymuned
- Rhan 7: Etholiadau a Phleidleisio
- cynigion eraill

Canmolodd y Prif Weithredwr y berthynas weithio gadarnhaol gydag Ysgrifennydd presennol y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol. Ynglŷn â'r Papur Gwyn, rhannodd bryderon yn ymwneud â'r cymysgedd amheus o faterion, y diffyg manylder ac absenoldeb cyllid angenrheidiol i gefnogi cadernid ac adnewyddiad mewn llywodraeth leol. Byddai safbwyntiau aelodau'n cael eu cyfuno o fewn yr ymateb drafft a'u rhannu cyn ei gyflwyno erbyn y dyddiad cau sef 11 Ebrill 2017.

Disgrifiodd y Cynghorydd Aaron Shotton y darpariaethau o fewn y Papur Gwyn fel rhai pellgyrhaeddol. Wrth gydnabod yr angen am ffyrdd gwahanol o weithio a chydweithredu rhanbarthol priodol, atgoffodd hwy o gynnydd sylweddol y Cyngor a nododd bwysigrwydd sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng gweithio rhanbarthol a'r lleol.

Tra roedd yn cefnogi dull unffurf i systemau pleidleisio etholiadol, siaradodd yn erbyn y syniad o ddatganoli cyfrifoldeb dros dai i'r rhanbarthau. Er mwyn galluogi trafodaeth wybodus yn cynnwys Aelodau newydd eu hethol, teimlai y dylai'r Cyngor geisio ymestyn dyddiad cau'r ymgynghoriad.

Gwnaeth y Cynghorydd Owen Thomas sylw ar bwysigrwydd y cynnydd ar Bwerdy'r Gogledd a rhaglen band eang BT i gryfhau'r economi leol. Rhoddodd y Prif Weithredwr ddiweddariad byr ar ddatblygiad cadarnhaol y strategaeth twf rhanbarthol ar gyfer Gogledd Cymru a'r system fetro arfaethedig yng Ngogledd Ddwyrain Cymru.

Cefnogodd y Cynghorydd Mike Peers yr awgrym o ymestyn dyddiad cau'r ymgynghoriad. Ar ddarpariaethau'r Papur Gwyn, galwodd am fwy o fanylion y tu ôl i'r Cyd Fyrddau Cynllunio a chyfeiriodd at yr effaith amgylcheddol o symud cerbydau rhwng siroedd i gydweithio ar wastraff. Nododd fod adnoddau ychwanegol yn angenrheidiol i ymdrin â Chwestiwn 6 yr Ymgynghoriad a cheisio rhesymeg tu ôl i'r amcan o geisio cael 'amrediad mwy amrywiol' o gynghorwyr, gan hefyd wneud sylwadau y gellid sicrhau dulliau mwy modern o gyfathrebu yn lle'r cymorthfeydd. Ychwanegodd y byddai mwy o gyllid gan Lywodraeth Cymru yn helpu i ostwng 'pwysau diangen' ac nad oedd y diffyg ffocws ar gydweithio trawsffiniol yn cydnabod sefyllfa Sir y Fflint. Wrth ymateb i sylwadau rhoddodd y Prif Weithredwr eglurder ar y pedwar term a ddefnyddir ar gyfer y partneriaethau economaidd presennol a ddangosir ar y map oedd yn dangos ardaloedd o dan reolaeth Llywodraeth Cymru. Hefyd nododd fod cyllid ar gyfer strategaeth twf Gogledd Cymru yn ddibynnol ar gydweithio trawsffiniol.

Cefnogodd y Cynghorydd Arnold Woolley y feirniadaeth o'r papur gwyn a'r cynnig i ymestyn y dyddiad cau. Teimlai nad oedd Llywodraeth Cymru wedi rhoi unrhyw arwydd o'r dull gorau o lywodraethu'n lleol, rhanbarthol a chenedlaethol a bod angen mwy o eglurder ar gyflawni arbedion o ran cost. Mynegodd bryderon am effaith negyddol parhau i gydweithio ar leoliaeth ac ar swyddogaeth Aelodau etholedig yn cynrychioli etholwyr, gan ychwanegu y byddai unrhyw gyfyngiadau ar Graffu yn tanseilio'r broses honno.

Rhannodd y Cynghorydd Chris Bithell y pryderon am effaith cydweithio pellach mewn meysydd penodol a rôl Craffu os oedd hyn i'w wneud yn rhanbarthol. Cefnogodd ddull unffurf i bleidleisio etholiadol ond teimlai yn gryf y dylid ailystyried y cynigion a'r cyllid ar gael i sicrhau'r canlyniadau cywir.

Dywedodd y Cynghorydd Richard Jones tra gallai trosglwyddo penderfyniadau lleol i lefel rhanbarthol greu arbedion, ni fyddai hyn yn gwella na chryfhau gwasanaethau. Soniodd am yr heriau mewn dirnad agweddau ariannol prosiectau cydweithrediadol cyfun ac aneffeithiolrwydd pwyllgor Craffu rhanbarthol sengl.

Cefnogodd y Cynghorydd Nancy Matthews y cynnig i ymestyn y dyddiad cau a system bleidleisio etholiadol unffurf tra cododd y Cynghorydd Gareth Roberts bryderon am oblygiadau unrhyw gydweithio a orfodir.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Derek Butler at gynnydd sylweddol sydd wedi ei wneud yn sefydlu safle Sir y Fflint yn y rhanbarth trawsffiniol. Cymeradwyodd y feirniadaeth o'r Papur Gwyn a roddwyd gan y Prif Weithredwr a chefnogodd ohirio dyddiad cau'r ymgynghoriad tan ar ôl yr Etholiad.

Rhoddodd y Cyngorydd Tony Sharps enghreifftiau o effeithiolrwydd partneriaethau blaenorol yn ymwneud â'r Cyngor a galwodd ar Lywodraeth Cymru i ailystyried ei gynigion er mwyn amddiffyn lleoliaeth.

Diolchodd y Prif Weithredwr i'r Aelodau am eu cefnogaeth a chytunodd i rannu'r ymateb drafft gyda'r Arweinwyr Grŵp ar gyfer derbyn eu sylwadau.

**PENDERFYNWYD:**

- (a) Fod y Cyngor yn rhannu ymateb drafft i'r Papur Gwyn gydag Arweinwyr Grŵp cyn gwneud ymateb ffurfiol; a
- (b) Bod y Cyngor yn nodi'r trefniadau presennol ar gyfer gweithio rhanbarthol yng Ngogledd Cymru.

**97. MESUR YR UNDEBAU LLAFUR (CYMRU)**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad ar Fesur yr Undebau Llafur (Cymru) oedd yn ceisio dadwneud rhai darpariaethau o'r Ddeddf Undebau Llafur 2016 yng Nghymru. Roedd ymateb cychwynnol gan y Cabinet yn cefnogi'r Mesur wedi ei ddarparu i Bwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Gwahoddwyd ymateb gan y Cyngor llawn yn sgil y Rhybudd o Gynnig a ystyriwyd ym Mawrth 2016.

Wrth grynhoi'r rhesymau dros gynnal y trefniadau cyfredol, soniodd y Prif Weithredwr am y berthynas waith effeithiol rhwng y Cyngor a'r Undebau Llafur cydnabyddedig, gyda Chytundeb Cyfleusterau yn rhoi eglurder ar swyddogaethau.

Galwodd y Cyngorydd Aaron Shotton ar Aelodau i gefnogi ymateb y Cabinet oedd yn dilyn y Rhybudd o Gynnig a dangosodd gefnogaeth i'r Mesur. Eiliwyd hyn.

Wrth gefnogi'r argymhellion, talodd y Cyngorydd Paul Shotton deyrnged i'r cydweithio cadarnhaol rhwng swyddogion a swyddogion yr Undebau Llafur.

**PENDERFYNWYD:**

Fod y Cyngor yn cefnogi Mesur yr Undebau Llafur (Cymru) ar argymhelliad y Cabinet a chydabod polisi Conwy fel y nodir yn y Rhybudd o Gynnig.

**98. DATGANIAD AR BOLISIÂU TÂL**

Cyflwynodd yr Uwch Reolwr, Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol yr adroddiad blynyddol a geisiai gymeradwyaeth i Ddatganiad Polisi Tâl y Cyngor i alluogi ei gyhoeddi erbyn 1 Ebrill 2017. Tra roedd y cynnwys yn cwrdd â gofynion cyfreithiol, roedd gwybodaeth ychwanegol hefyd wedi ei gynnwys fel ymarfer da ac i wneud y ddogfen yn fwy ystyrlon; roedd y rhain yn ymwneud â thaliadau bonws a thâl ar sail perfformiad, cynlluniau aberthu cyflog a'r dull o reoli talent.

Dyweddod y Prif Weithredwr fod y Datganiad yn crynhoi agwedd y sefydliad tuag at dâl presennol a threfniadau cydnabyddiaeth a soniodd am newidiadau deddfwriaethol oedd yn golygu fod rhaid i fwy o gyrff cyhoeddus bellach gyhoeddi eu trefniadau.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Richard Jones at y meini prawf ar gyfer rhoi cynnydd blynyddol yn achos Prif Swyddogion, a theimlai mai dim ond lle roedd yr holl arfarniadau wedi eu cwblhau o fewn eu timau priodol y dylai hyn fod yn weithredol. Fel cymhelliad pellach, dywedodd y gellid rhoi cynnydd rhannol hyd nes y byddai Prif Swyddog wedi cwblhau arfarniad boddhaol. Soniodd y Prif Weithredwr am y disgwyliad clir ar i Brif Swyddogion oruchwylio cwblhau'r arfarniadau yn eu timau fel rhan allweddol o'u harfarniadau eu hunain. Dywedodd y gellid ystyried yr awgrymiadau yn ddiweddarach a soniodd am y gwaith sydd wedi ei wneud ar arfarniadau i wella eu hansawdd a'r gyfradd gwblhau.

Wrth ymateb i ymholiad gan y Cynghorydd Gareth Roberts ar y rheol 'IR35', eglurwyd mai dim ond i leiafrif o unigolion sydd ar hyn o bryd yn ymwneud â'r Cyngor roedd hyn yn berthnasol a bod gwaith ar y gweill i ymdrin â hyn.

Nododd y Cynghorydd Mike Peers bwysigrwydd arfarniadau i helpu i hybu perfformiad. Yn yr adran yn ymwneud â thâl wedi ei seilio ar berfformiad yn y Datganiad, dywedodd y dylid egluro mai dim ond i Brif Swyddogion yr oedd y system arfarnu yn gysylltiedig â thâl yn berthnasol.

#### **PENDERFYNWYD:**

Fod y Datganiad ar Bolisiau Tâl ar gyfer 2017/18 yn cael ei gymeradwyo a'i fabwysiadu.

### **99. ADOLYGIAD BLYNYDDOL O'R COD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL**

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) y Cod Llywodraethu Corfforaethol diweddaraf oedd yn ffurfio rhan o Gyfansoddiad y Cyngor. Yn dilyn adolygiad gan y Gweithgor Llywodraethu Corfforaethol, mae'r ddogfen wedi ei chefnogi gan y Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Cyfansoddiad.

#### **PENDERFYNWYD:**

Fod y Cod Llywodraethu Corfforaethol wedi ei ddiweddarau yn cael ei gymeradwyo ar gyfer ei fabwysiadu fel rhan o Gyfansoddiad y Cyngor.

### **100. GWELLIANNAU I'R CYFANSODDIAD**

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth iddo ef a'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd i wneud newidiadau gweinyddol i'r Cyfansoddiad, fel diweddarau teitlau swyddi yn dilyn newidiadau strwythurol. Ni fyddai newidiadau yn cael eu gwneud i'r maes dirprwyo a byddai'r holl newidiadau strwythurol yn parhau i fod yn ddibynnol ar gymeradwyaeth y Cabinet.

### **PENDERFYNWYD:**

- (a) Lle mae unrhyw newidiadau yn y dyfodol yn llwyr i ddynodi swyddog yn codi o ailstrwythuro, fod y Prif Swyddog (Llywodraethu) a Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd yn cael eu hawdurdodi i wneud y newidiadau hynny i'r Cyfansoddiad; a
- (b) Bod Aelodau yn cael eu hysbysu a'u diweddarau am unrhyw newidiadau i ddynodiadau swyddog yn codi o ailstrwythuro.

### **101. CYFUNO BUDDSODDIADAU PENSIWN YNG NGHYMRU**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad ar y Cytundeb Rhwng Awdurdodau sy'n gosod y trefniadau llywodraethu priodol ar gyfer cyfuno buddsoddiadau pensiwn gyda'r saith Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yng Nghymru gyda chyfrifoldebau i'w dirprwyo i Bwyllgor Llywodraethu ar y Cyd.

O ganlyniad i gyflymder y mater hwn, roedd argymhellion adroddiad geiriol wedi ei gefnogi gan y Pwyllgor Cyfansoddiad i geisio cael cymeradwyaeth y Cyngor. Mynegodd y Prif Weithredwr werthfawrogiad o waith Rheolwr Cronfa Bensiwn Clwyd a'r Rheolwr Cyllid Pensiwn, yn ogystal â'r penderfyniad gan Gyngor Sir Caerfyrddin i weithredu fel yr awdurdod lletyol ar gyfer y Pŵl Buddsoddi Cymru Gyfan.

Fel Cadeirydd Pwyllgor Cronfa Bensiwn Clwyd cadarnhaodd y Cynghorydd Allan Diskin fod yr argymhellion wedi eu cefnogi.

### **PENDERFYNWYD:**

- (a) Fod cynnwys fersiwn drafft y Cytundeb Rhwng Awdurdodau, sydd wedi ei atodi fel Atodiad B i'r adroddiad, yn cael ei nodi a bod awdurdod yn cael ei ddirprwyo i'r Prif Weithredwr mewn ymgynghoriad â Chadeirydd Pwyllgor Pensiynau Clwyd a'r Swyddog Monitro i:
  - gytuno ar unrhyw fân newidiadau pellach i'r Cytundeb Rhwng Awdurdodau
  - gymeradwyo ac arwyddo fersiwn derfynol y Cytundeb Rhwng Awdurdodau.
- (b) I sefydlu cyd bwyllgor (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel y Cyd Bwyllgor Llywodraethu) ar sail y cylch gorchwyl sydd wedi ei atodi i'r adroddiad o fewn y gwelliannau arfaethedig i'r Cyfansoddiad;
- (c) Fod gweithredu swyddogaethau penodol yn cael eu dirprwyo i'r Cyd Bwyllgor Llywodraethu fel y nodir o fewn y gwelliannau arfaethedig i'r Cyfansoddiad;
- (d) Fod y swyddogaethau sydd wedi eu cadw i'r Cyngor yn cael eu nodi, a'r holl faterion a gaiff eu dirprwyo i Bwyllgor Cronfa Bensiwn Clwyd, ac eithrio terfynu neu wneud gwelliant sylweddol i'r Cytundeb Rhwng Awdurdodau.
- (e) Cymeradwyo penodi Cadeirydd Pwyllgor Cronfa Bensiwn Clwyd i'r Cyd Bwyllgor Llywodraethu fel cynrychiolydd Sir y Fflint ac Is-gadeirydd Pwyllgor Cronfa Bensiwn Clwyd fel ei Ddirprwy ef/hi.

- (f) Darparu dirprwyaeth i'r cynrychiolydd a enwebwyd a'i Ddirprwy ef/hi i weithredu o fewn cylch gorchwyl y Cyd Bwyllgor Llywodraethu i alluogi gweithredu unrhyw swyddogaeth ddirprwyedig;
- (g) Fod Cyngor Sir Caerfyrddin (Cronfa Bensiwn Dyfed) yn gweithredu fel yr awdurdod lletyol gyda'r cyfrifoldebau wedi eu nodi yn y Cytundeb Rhwng Awdurdodau; a
- (h) Cymeradwyo'r gwelliannau i'r Cyfansoddiad fel y nodir yn Atodiad A i'r adroddiad.

**102. SYLWADAU GAN Y CADEIRYDD**

Gan mai hwn oedd cyfarfod olaf y Cyngor Sir cyn yr Etholiadau, fe fanteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i ddymuno'n dda i'r holl Aelodau.

**103. AELODAU O'R WASG A'R CYHOEDD OEDD YN BRESENNOL**

Roedd un aelod o'r wasg a dau aelod o'r cyhoedd yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 2.00pm a daeth i ben am 4.45pm)

.....  
**Cadeirydd**

Mae'r dudalen hon yn wag yn bwrpasol



**CYNGOR SIR Y FFLINT**  
**DYDD IAU, 18 MAI 2017**

Cofnodion Cyfarfod Blynyddol Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, ddydd Iau, 18 Mai, 2017.

**YN BRESENNOL: Mr Peter Curtis (Cadeirydd sy'n Ymadael)**

Y Cyngorwyr: Bernie Attridge, Janet Axworthy, Glyn Banks, Haydn Bateman, Marion Bateman, Sean Bibby, Chris Bithell, Siân Braun, Helen Brown, Derek Butler, Clive Carver, Geoff Collett, Bob Connah, David Cox, Paul Cunningham, Jean Davies, Rob Davies, Ron Davies, Adele Davies-Cooke, Chris Dolphin, Rosetta Dolphin, Ian Dunbar, Andy Dunbobbin, Mared Eastwood, Carol Ellis, David Evans, Veronica Gay, Ron Hampson, David Healey, Gladys Healey, Patrick Heesom, Cindy Hinds, Andrew Holgate, Dave Hughes, Kevin Hughes, Ray Hughes, Dennis Hutchinson, Joe Johnson, Paul Johnson, Rita Johnson, Christine Jones, Richard Jones, Tudor Jones, Colin Legg, Brian Lloyd, Richard Lloyd, Mike Lowe, Dave Mackie, Hilary McGill, Billy Mullin, Ted Palmer, Mike Peers, Michelle Perfect, Vicky Perfect, Neville Phillips, Mike Reece, Ian Roberts, Tony Sharps, Aaron Shotton, Paul Shotton, Ralph Small, Ian Smith, Carolyn Thomas, Owen Thomas, Martin White, David Williams, David Wisinger ac Arnold Woolley.

**YMDDIHEURIADAU:**

Y Cyngorwyr: Mike Allport, George Hardcastle a David Williams.

**HEFYD YN BRESENNOL:**

Y Prif Weithredwr, Y Prif Swyddog (Llywodraethu), Y Prif Swyddog (Newid Trefniadol), Y Prif Swyddog (Cynllunio a'r Amgylchedd), Y Prif Swyddog (Cymuned a Menter), Y Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol), y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd, y Rheolwr Cyllid Corfforaethol, Arweinydd Tîm – Gwasanaethau Pwyllgorau a'r Tad Roberto Ciardo ar gyfer y weddi.

Cyn dechrau'r cyfarfod rhoddodd y Cyngorydd Aaron Shotton deyrnged i'r Gwir Anrhydeddus Rhodri Morgan, cyn Brif Weinidog Cymru, a fu farw'n anffodus y diwrnod blaenorol. Soniodd am ei lwyddiant gwleidyddol, yn enwedig wrth ddatganoli gwleidyddiaeth yng Nghymru. Roedd ganddo atgofion melys ohono ar lefel bersonol ond hefyd am y gwaith roedd yn ymwneud ag o yn y Sir fel y buddsoddiad yn Airbus. Talodd y Cadeirydd deyrnged hefyd i Mr Morgan.

**1. DATGAN CYSYLLTIAD**

Dywedodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) fod gan bob Aelod gysylltiad personol yn eitem rhif 11 ar y rhaglen – Atodlen Cydnabyddiaeth Ariannol 2017-18.

## **2. ADOLYGIAD Y CADEIRYDD O'R FLWYDDYN**

Croesawodd Mr Curtis, fel y Cadeirydd oedd yn ymadael, bob Aelod newydd a'r rhai oedd yn dychwelyd, i'r cyfarfod. Cyflwynodd ei adolygiad o'r flwyddyn ac amlygodd lwyddiannau'r Cyngor, yn arbennig agoriad Ysgol Uwchradd Treffynnon a'r nifer o dai Cyngor newydd oedd wedi cael eu hadeiladu. Diolchodd i'w gonsort am ei chymorth ac i'r Is-gadeirydd, y Cynghorydd Brian Lloyd, am ei gefnogaeth. Diolchodd hefyd y Parch Roberto Ciardo a fu'n gaplan iddo.

Roedd ef a'i gonsort wedi cwrdd â phobl fendigedig o'r Sir a hefyd drwy fynd i dderbyniadau mewn awdurdodau cyfagos.

Wrth gloi, diolchodd i dîm y Prif Swyddog a holl weithwyr y Cyngor a oedd yn darparu gwasanaethau'r Cyngor a hefyd am ei gefnogi wrth godi £8,000 at yr elusennau o'i ddewis.

Diolchodd y Cynghorydd Aaron Shotton i Mr Curtis am y gwaith a wnaed yn ei swydd fel Cadeirydd y Cyngor a'i gwelodd yn bod yn llysgennad da i'r Sir. Roedd ei waith wedi ei wneud gydag urddas a hiwmor a byddai ei gyd-gynghorwyr yn ei golli. Dymunodd yn dda i Mr Curtis a'i wraig Jenny ar gyfer y dyfodol.

Dymunodd y Cynghorydd Palmer, ar ran Cyngor Tref Treffynnon, ymddeoliad bendigedig i Mr a Mrs Curtis.

Llongyfarchodd y Cynghorydd Peers Mr Curtis ar ddiwedd ei ail dymor yn swydd Cadeirydd y Cyngor. Rhoddodd ganmoliaeth iddo am ei degwch yn ystod cyfarfodydd a'r modd y gwnaeth drin pawb yn gyfartal bob amser a dymunodd yn dda iddo yn ei ymddeoliad.

## **3. PENODI CADEIRYDD Y CYNGOR AR GYFER BLWYDDYN Y CYNGOR 2017/18, A'R CADEIRYDD I DDERBYN CADWYN Y SWYDD A LLOFNODI'R DATGANIAD DERBYN Y SWYDD**

Cynigiodd y Cynghorydd Ray Hughes ac eiliodd y Cynghorydd Aaron Shotton y dylai'r Cynghorydd Brian Lloyd gael ei ethol yn Gadeirydd y Cyngor ar gyfer blwyddyn y Cyngor 2017/18.

### **PENDERFYNWYD:**

Ethol y Cynghorydd Brian Lloyd yn Gadeirydd y Cyngor ar gyfer blwyddyn y Cyngor 2017/18.

Rhoddwyd Cadwyn y Swydd i'r Cynghorydd Lloyd gan y Cadeirydd a oedd yn ymddeol a llofnododd ei Ddatganiad Derbyn y Swydd yng ngŵydd y Prif Weithredwr.

(Ar y pwynt hwn, cadeiriodd y Cynghorydd Lloyd weddill y cyfarfod.)

Yna cyflwynodd y Cadeirydd Fathodyn y Swydd fel Cadeirydd a oedd yn ymddeol i Mr Peter Curtis a Bathodyn y Swydd fel Consort a oedd yn ymddeol i Mrs Jenny Curtis.

Ymatebodd y Cadeirydd a diolchodd i Aelodau am eu cefnogaeth yn ei ethol yn Gadeirydd am y flwyddyn i ddod.

**4. PENODI IS-GADEIRYDD Y CYNGOR AR GYFER  
BLWYDDYN Y CYNGOR 2017/18 – A CHYFLWYNO CADWYN Y SWYDD A  
LLOFNODI DATGANIAD DERBYN Y SWYDD**

Cynigiodd y Cynghorydd Ian Roberts ac eiliodd y Cynghorydd Aaron Shotton y dylid penodi'r Cynghorydd Paul Cunningham yn Is-gadeirydd y Cyngor ar gyfer blwyddyn y Cyngor 2017/18.

**PENDERFYNWYD:**

Penodi'r Cynghorydd Paul Cunningham yn Is-gadeirydd y Cyngor ar gyfer blwyddyn y Cyngor 2017/18.

Rhodddwyd Cadwyn y Swydd i'r Cynghorydd Cunningham gan y Cadeirydd a llofnododd ei Ddatganiad Derbyn y Swydd yng ngŵydd y Prif Weithredwr.

**5. PENODI ARWEINYDD Y CYNGOR SIR**

Cynigiodd y Cynghorydd Tony Sharps ac eiliodd y Cynghorydd Ray Hughes y dylai'r Cynghorydd Aaron Shotton gael ei benodi'n Arweinydd y Cyngor ar gyfer blwyddyn y Cyngor 2017/18.

Siaradodd y Cynghorydd Sharps o blaid ei gynnig a dywedodd ei fod yn hyderus y byddai'r Cynghorydd Shotton yn cynnig yr arweiniad a oedd ei angen ar gyfer Cyngor sefydlog er lles gorau trigolion Sir y Fflint. Er ei fod yn cefnogi'r Cynghorydd Shotton, ychwanegodd y byddai'r Aelodau Annibynnol yn parhau'n annibynnol o reolaeth y grŵp.

Mynegodd y Cynghorydd Sharps bryder am yr amseroedd ymateb i Gynghorwyr gan rai adrannau. Dywedodd y Prif Weithredwr fod hyn wedi ei godi gyda fo ac roedd set o safonau a fyddai angen cwrdd â nhw yn cael ei chreu.

**PENDERFYNWYD:**

Penodi'r Cynghorydd Aaron Shotton yn Arweinydd y Cyngor ar gyfer blwyddyn y Cyngor 2017/18.

**6. ARWEINYDD Y CYNGOR I BENODI'R CABINET**

Diolchodd y Cynghorydd Aaron Shotton i'r Aelodau am eu cefnogaeth wrth ei benodi'n Arweinydd y Cyngor am y 12 mis nesaf a oedd yn anrhydedd.

Cyfeiriau at yr heriau o'n blaen a hefyd y gefnogaeth unedig a welwyd ar draws y Siambr yn ystod y blynyddoedd diwethaf er lles trigolion a gwasanaethau Sir y Fflint ac roedd yn gobeithio y byddai hynny'n parhau.

Yn unol â'r Cyfansoddiad, cyfeiriodd y Cyngorydd Aaron Shotton at ei ddewis o Gynghorwyr a fyddai'n gwasanaethu ar y Cabinet.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi'r dewis o Gynghorwyr i wasanaethu ar y Cabinet a'u portffolios a fanylir arnynt isod.

<b><u>Aelod Cabinet</u></b>	<b><u>Portffolio</u></b>
Aaron Shotton	Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Cabinet Cyllid
Bernie Attridge	Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet Tai
Chris Bithell	Aelod Cabinet Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd
Derek Butler	Aelod Cabinet Datblygu Economaidd
Christine Jones	Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol
Billy Mullin	Aelod Cabinet Rheoli Corfforaethol ac Asedau
Ian Roberts	Aelod Cabinet Addysg
Carolyn Thomas	Aelod Cabinet Strydwedd a Chefn Gwlad

**7. ETHOLIADAU CYNGOR SIR Y FFLINT DYDD IAU – 4 MAI 2017**

Llongyfarchodd y Prif Weithredwr, fel Swyddog Canlyniadau, bob Aelod ar gael eu hethol i'r Cyngor. Cyflwynodd yr adroddiad ar Etholiadau'r Cyngor Sir a oedd wedi eu cynnal ar 4 Mai 2017.

Cadarnhaodd yr adroddiad fod yr etholiadau lleol wedi eu cynnal yn unol â chyfraith etholiadau, canllawiau ac arfer cyffredin, ac yn unol â'r safonau perfformiad a amlinellir ar gyfer Swyddogion Canlyniadau, a darparwyd manylion ynglŷn â chanlyniadau etholiadau a chyfansoddiad gwleidyddol y Cyngor.

Diolchodd y Dirprwy Swyddog Canlyniadau, y Tîm Etholiadau, ymgeiswyr, asiantwyr a gweithredwyr y pleidiau am eu rhan yn yr etholiad a

gwnaeth sylw am anhawster cynyddol y broses yn sgil twf cyfryngau cymdeithasol.

Diolchodd hefyd i aelodau newydd a rhai sy'n dychwelyd am eu rhan yn y sesiynau sefydlu.

Diolchodd y Cynghorydd Peers a Paul Shotton y Tîm Etholiadau am eu help yn ystod yr etholiad a hefyd i'r Swyddog Canlyniadau, Dirprwy Swyddog Canlyniadau, staff gorsaf bleidleisio a staff y cyfrif.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Peers at y sylwadau di-fudd a wnaed gan Brif Weinidog Cymru cyn yr etholiad ynghylch ymgeiswyr Annibynnol. Roedd wedi ysgrifennu at y Prif Weinidog yn gofyn am ymddiheuriad ond nid oedd wedi cael un hyd yma.

Dywedodd y Cynghorydd Carolyn Thomas fod gwall yn atodiad yr adroddiad gan ei bod wedi sefyll fel ymgeisydd Llafur. Ymddiheurodd y Prif Weithredwr am hyn.

### **PENDERFYNWYD:**

Nodi'r adroddiad.

## **8. MATERION CYFANSODDIADOL: PWYLLGORAU A CHYRFF MEWNOL**

Rhoddodd y Cyngor ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog (Llywodraethu) a ddeliodd â materion hynny sydd angen penderfynu arnynt yn ystod Cyfarfod Blynyddol y Cyngor Sir, yn unol â rheol 1.1 (vii)-(xiii) Gweithdrefn y Cyngor. Rhannwyd yr adroddiad yn adrannau, pob un yn delio ag un penderfyniad oedd angen ei wneud a'r materion perthnasol i'w hystyried. Rhoddwyd ystyriaeth i bob adran a phleidleisio arnynt yn eu tro.

Yn ogystal, rhoddodd y Cyngor ystyriaeth hefyd i benodi aelod lleyg newydd i'r Pwyllgor Archwilio a amlinellwyd mewn adroddiad ar wahân, a hefyd cymeradwyo'r broses dros ddewis cynrychiolydd tref a chymuned ar y Pwyllgor Safonau. Roedd hefyd nifer o newidiadau i'w gwneud o ran y modd y byddai'r Pwyllgor Cynllunio yn gweithredu i sicrhau cydymffurfiad â deddfwriaeth a ddaeth i rym ar 5 Mai 2017.

### **(A) Penodi Pwyllgorau**

Eglurodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) fod y Cyfansoddiad yn caniatáu penodi'r canlynol: Pwyllgor Archwilio; Pwyllgor Cronfa Bensiwn Clwyd; Pwyllgor y Cyfansoddiad; Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, Pwyllgor Cyd-lywodraethu (ar gyfer Pensiynau), Pwyllgor Trwyddedu, Pwyllgor Cynllunio a Rheoli Datblygu, Pwyllgor Safonau a chwe Phwyllgor Trosolwg a Chraffu.

Roedd gan Bwyllgor y Cyfansoddiad a'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd swyddogaethau tebyg iawn. Yng nghyfarfod diwethaf Pwyllgor

y Cyfansoddiad roedd cais i gyfuno'r ddau bwyllgor. Credwyd fod y cylch gwaith statudol yn ddigon eang i ymgorffori'r swyddogaeth a gyflawnwyd gan Bwyllgor y Cyfansoddiad felly argymhellwyd ymgorffori Pwyllgor y Cyfansoddiad i mewn i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

Cynigiodd y Cynghorydd Aaron Shotton gymeradwyo'r argymhellion fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad a eiliwyd gan y Cynghorydd Attridge.

#### **PENDERFYNWYD:**

- (a) Ymgorffori Pwyllgor y Cyfansoddiad i mewn i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, ac y dylai'r Cyngor Llawn adolygu, creu neu ddirymu is-ddeddfau;
- (b) Dylid penodi'r Pwyllgorau a amlinellir yn adran 1.04 yr adroddiad; a
- (c) Dylid diwygio'r Cyfansoddiad i adlewyrchu'r pwyllgorau a benodwyd.

#### **(B) Penderfyniad ar faint Pwyllgorau**

Eglurodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) fod rhaid penderfynu ar faint bob pwyllgor yn y Cyfarfod Blynyddol. Amlinellwyd y ddarpariaeth ar gyfer maint y Pwyllgorau yn yr adroddiad.

Crëwyd Rheoliadau Maint a Chyfansoddiad Pwyllgorau Awdurdod Cynllunio Lleol (Cymru) 2017 ar 21 Mawrth a daethant i rym ar 5 Mai 2017. Roeddent yn gorchymyn y dylai'r Pwyllgor Cynllunio gynnwys rhwng 11 a 21 Aelod o ran maint a dim mwy na 50% o aelodaeth lawn y Cyngor. Roedd maint arfaethedig y Pwyllgor yn cyflawni'r gofynion hynny.

Cynigiodd y Cynghorydd Aaron Shotton y dylid cymeradwyo'r argymhellion fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Attridge.

#### **PENDERFYNWYD:**

Dylai maint pob Pwyllgor fod yn unol â'r hyn a amlinellwyd ym mharagraff 1.06 yr adroddiad, gan nodi'r cyfyngiadau sy'n rhaid eu gweithredu bellach i aelodaeth y Pwyllgor Cynllunio.

#### **(C) Cylch Gorchwyl Pwyllgorau a Dirprwyon Pensiwn**

Eglurodd y Prif Swyddog Llywodraethu ei bod yn ofynnol i'r Cyfarfod Blynyddol benderfynu ar gylch gorchwyl y pwyllgorau a benodwyd ganddo. Amlinellwyd cylch gorchwyl presennol y Pwyllgorau presennol fel yr amlinellwyd yn Rhan 2 y Cyfansoddiad.

Cynigiodd y Cynghorydd Attridge gymeradwyo'r argymhellion fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad a eiliwyd gan y Cynghorydd Aaron Shotton.

## **PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cylch gorchwyl ar gyfer pob pwyllgor yn Rhan 2 y Cyfansoddiad (gan nodi'r newidiadau mewn perthynas â Phwyllgorau'r Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd).

### **(D) Cydbwysedd Gwleidyddol**

Eglurodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) fod yn rhaid i'r Cyngor benderfynu yn, neu cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl, y Cyfarfod Blynnyddol, ar ddyraniad seddi i grwpiau gwleidyddol yn unol â'r Rheolau Cydbwysedd Gwleidyddol sydd wedi eu cynnwys yn Rheoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau a Grwpiau Gwleidyddol) 1990 fel y'i diwygiwyd.

Roedd cyfanswm o 157 o seddi ar gyfer Cynghorwyr ar draws holl Bwyllgorau'r Cyngor yn seiliedig ar y grŵp presennol o aelodau ac amlinellwyd hawl pob grŵp i seddi ym mharagraff 1.15 yr adroddiad.

Cefnogodd y Cyngorydd Peers ddiwygiad y dylid ychwanegu'r trydydd pwynt bwled i 1.16 yn gymaint ag y dylid ymgymryd â'r lefel ofynnol o hyfforddiant o 75% er mwyn i Aelod eistedd ar y Pwyllgor Cynllunio. Eiliwyd hyn gan y Cyngorydd Richard Jones a chafodd ei gymeradwyo pan gynhaliwyd pleidlais ar y mater.

Cynigiodd y Cyngorydd Aaron Shotton gymeradwyo'r argymhellion fel yr amlinellwyd ym mharagraff 1.17 yr adroddiad a eiliwyd gan y Cyngorydd Attridge.

## **PENDERFYNWYD:**

- (a) Y dylid (1) diwygio'r Cyfansoddiad i ddangos na chaniateir unrhyw eilyddion ar y Pwyllgor Cynllunio ac y bydd cworwm yn 50%; a (2) diwygio'r Cyfansoddiad er mwyn caniatáu, os bydd 2 Aelod o ward aml-aelod yn cael eu henwebu i'r Pwyllgor Cynllunio, yna bydd y sedd yn cael ei dyrannu
- Yn yr achos cyntaf, drwy gytundeb rhwng y 2 arweinydd grŵp unigol;
  - Os na fydd modd dod i gytundeb, i'r enwebiad cyntaf i'w dderbyn gan y Swyddog Priodol; a
  - Bod y lefel ofynnol o hyfforddiant o 75% er mwyn i Aelod eistedd ar y Pwyllgor Cynllunio wedi cael ei gyflawni.
- (b) Dylid dyrannu'r seddi yn unol â chydbwysedd gwleidyddol (a'r rheolau ar aelodaeth o'r Pwyllgor Cynllunio)

### **(E) Penodi Cadeiryddion y Pwyllgorau Sefydlog**

Eglurodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) fod Cadeiryddion Pwyllgorau yn cael eu penodi gan wahanol gyrff, rhai ohonynt a oedd yn destun cyfyngiadau. Roedd tabl ym mharagraff 1.18 yr adroddiad yn amlinellu pa

gorff oedd yn penodi pa Gadeirydd a pha gyfyngiadau (os o gwbl) oedd yn berthnasol).

Cynigiodd y Cynghorydd Aaron Shotton y canlynol, a eiliwyd gan y Cynghorydd Attidge.

- Penodi'r Cynghorydd Dave Hughes yn Gadeirydd Pwyllgor Cronfa Bensiwn Clwyd;
- Penodi'r Cynghorydd Sharps yn Gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu; a
- Penodi'r Cynghorydd Wisinger yn Gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio.

Cynigiodd y Cynghorydd Peers ddiwygiad. Teimlai, oherwydd mai'r Grŵp Cynghrair Annibynnol oedd ail grŵp fwyaf y Cyngor y dylid dyrannu Cadeiryddiaeth y Pwyllgor Trwyddedu iddynt. Cyfeiriodd at y nifer o swyddi am dâl a dderbyniwyd gan y Grŵp Annibynnol y flwyddyn flaenorol a oedd wedi bod yn gyfystyr â 50% o aelodaeth y Cyngor. Cynigiodd y dylid gwneud y Cynghorydd Rosetta Dolphin yn Gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Rosetta Dolphin. Pan gynhaliwyd pleidlais ar hyn, cafodd ei wrthod a phleidleisiwyd ar y cynnig gwreiddiol, a gynigiwyd gan y Cynghorydd Aaron Shotton, a'i gymeradwyo.

Gan na chafwyd enwebiad ar gyfer Cadeirydd Pwyllgor y Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democraataidd, eglurodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) y byddai enwebiad yn cael ei geisio yng nghyfarfod cyntaf y Pwyllgor.

Eglurodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) fod Cadeiryddion y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu wedi eu dewis gan y grwpiau gwleidyddol yn seiliedig ar gryfder y gwahanol grwpiau a oedd â seddi ar y Cabinet. Dyrannwyd swyddi Cadeiryddion i'r grwpiau a oedd a lle ar y Cabinet yn gyntaf ac roedd yr hawl yn cael ei dalgrynnu i lawr i'r rhif cyfan agosaf. Cafodd y swyddi Cadeiryddion a oedd yn weddill eu dyrannu i grwpiau heb seddi ar y Cabinet, gan dalgrynnu i fyny i'r rhif llawn agosaf.

Cynigiodd y Cynghorydd Aaron Shotton y canlynol, a eiliwyd gan y Cynghorydd Attidge.

### **Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu Grŵp i Ddewis Cadeirydd**

Cymuned a Menter	Llafur (y Cynghorydd Dave Healey)
Addysg ac Ieuenctid (Hampson)	Llafur (y Cynghorydd Ron)
Adnoddau Corfforaethol	Ceidwadwyr
Amgylchedd	Annibynwyr Newydd
Newid Sefydliadol	Y Gynghrair Annibynnol
Iechyd a Gofal Cymdeithasol	Annibynnol

Nododd y Cynghorydd Peers fod y grwpiau Democratiaid Rhyddfrydol a'r Annibynwyr Newydd yr un maint ac o ystyried fod gan yr Annibynwyr Newydd Gadeiryddiaeth Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Amgylchedd y flwyddyn flaenorol, teimlai ei bod ond yn deg i hyn gael ei roi rŵan i grŵp y Democratiaid Rhyddfrydol a chynigiodd hynny fel gwelliant ffurfiol. Eiliwyd



hyn gan y Cynghorydd Owen Thomas. O'i roi i bleidlais, gwrthodwyd y gwelliant.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig gwreiddiol, a gynigiwyd gan y Cynghorydd Aaron Shotton, a chafodd ei gymeradwyo.

### **PENDERFYNWYD:**

(a) Penodi Cadeirydd y Pwyllgorau canlynol (gan nodi unrhyw gyfyngiadau ar gymhwysedd):

- Pwyllgor Cronfa Bensiwn Clwyd – y Cynghorydd Dave Hughes
- Pwyllgor Trwyddedu – y Cynghorydd Sharps
- Pwyllgor Cynllunio a Rheoli Datblygu – y Cynghorydd Wisinger

(b) Byddai'r grwpiau canlynol yn Cadeirio'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu fel yr amlinellir:

Cymuned a Menter	-	Grŵp Llafur
Addysg ac Ieuenctid	-	Grŵp Llafur
Adnoddau Corfforaethol	-	Grŵp y Ceidwadwyr
Amgylchedd	-	Grŵp yr Annibynwyr Newydd
Newid Sefydliadol	-	Grŵp y Gynghrair Annibynnol
Iechyd a Gofal Cymdeithasol	-	Grŵp Annibynnol

### **(F) Materion Dewis Lleol**

Eglurodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) ei bod yn ofynnol i'r Cyngor gytuno ar ran o'r fath o'r Cynllun Dirprwyo gan fod y Cyngor wedi penderfynu ei fod yn fater i'r Cyngor gytuno arno. Roedd hyn yn ymwneud â dewis lleol o swyddogaethau y gellir eu penderfynu naill ai gan y Cyngor neu'r Cabinet ac / neu swyddogion dynodedig. Cafodd tabl o Swyddogaethau Dewis Lleol ei gynnwys yn Rhan 3, Adran A, Tabl 4 y Cyfansoddiad.

Cynigiodd y Cynghorydd Attridge y dylid cadarnhau'r Materion Dewis Lleol presennol ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Aaron Shotton.

### **PENDERFYNWYD:**

Cadarnhau'r Materion Dewis Lleol presennol fel yr amlinellir yn yr adroddiad.

### **(G) Enwebu i Gyrff Mewnol**

Eglurodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) fod y Cynllun Dirprwyo presennol yn darparu ar gyfer Pwyllgor Penodiadau ar gyfer swyddogion haen gyntaf ac ail haen yn cynnwys 7 Aelod. Nid oedd hwn yn Bwyllgor Sefydlog a byddai'n cael ei gynnull pan fo angen drwy geisio enwebiadau gan Arweinwyr y Grwpiau. Yn flaenorol, roedd yn arferol i Aelodau'r Pwyllgor fod ar sail cydbwysedd gwleidyddol, gan gynnwys yr Aelod Cabinet perthnasol. Roedd y Cyngor wedi cytuno'n flaenorol y byddai Cadeirydd neu Is-gadeirydd y

Pwyllgor Trosolwg a Chraffu perthnasol yn Aelodau o'r Pwyllgor ac argymhellwyd y dylid parhau â'r arfer hwnnw.

Cynigiodd y Cynghorydd Attridge gymeradwyo'r argymhellion fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad a eiliwyd gan y Cynghorydd Aaron Shotton.

### **PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo cyfansoddiad y Pwyllgor Penodiadau.

#### **(H) Pwyllgor Safonau**

Eglurodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) fod y Pwyllgor Safonau yn cynnwys pum aelod annibynnol, cynrychiolydd Cyngor Tref a Chymuned a thri Chynghorydd (na allai hefyd fod yn Arweinydd nac yn Aelod o'r Cabinet). Byddai'r tri Aelod yn cael eu penodi ar gyfer tymor llawn y Cyngor. Gallai'r Cynghorwyr Woolley a McGuill wasanaethau am un tymor arall yn unig. Roedd y Cynghorydd Cox eisoes wedi gwasanaethu am ddau dymor ac felly ni allai gael ei ailbenodi. Nododd y Cynghorydd Woolley ei fod yn barod i gael ei benodi am dymor arall ond ni allai'r Cynghorydd McGuill oherwydd ei ymrwymadau ar gorff allanol. Yn dilyn cwestiwn gan y Cynghorydd Peers, cadarnhaodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) fod y Cynghorwyr Sir wedi eu hailbenodi yn y Cyfarfod Blyneddol yn 2016 ond eu bod eisoes ran o'r ffordd drwy eu tymor o bedair blynedd.

Roedd cyfnod y cynrychiolydd cyngor tref a chymuned wedi dod i ben. Gallai'r Cyngor ailbenodi'r cynrychiolydd presennol neu gallai geisio cael cynrychiolydd newydd. Roedd y cynrychiolydd presennol, y Cynghorydd Duggan-Keen o Gyngor Tref Caerwys, wedi gwneud cyfraniad gwerthfawr i waith y Pwyllgor ac yn barod i wasanaethu unwaith eto. Cynigiwyd y dylai'r Cyngor ymgynghori â'r Cynghorau Tref a Chymuned ar ei ailbenodiad am dymor pellach ac y dylai barhau yn y swydd hyd nes y byddai ailbenodiad neu benodiad newydd yn cael ei wneud.

Argymhellodd y Cynghorydd Aaron Shotton benodi'r Cynghorwyr Paul Johnson ac Arnold Woolley i'r Pwyllgor Safonau. Argymhellodd y Cynghorydd Chris Dolphin y dylid penodi'r Cynghorydd Heesom i'r Pwyllgor Safonau. Pan gafwyd pleidlais ar y mater cymeradwywyd yr enwebiadau ar gyfer y tri Chynghorydd.

Argymhellodd y Cynghorydd Shotton y dylid ymgynghori â chynghorau tref a chymuned ar ail-benodi cynrychiolydd y Cynghorau Tref a Chymuned, a bod Mr Duggan-Keen, y cynrychiolydd presennol, yn parhau yn y swydd hyd nes y byddai'n cael ei ailbenodi neu fod penodiad newydd y cael ei wneud.

### **PENDERFYNWYD:**

(a) Penodi'r tri Aelod a ganlyn i'r Pwyllgor Safonau:-

- Y Cynghorwyr: Heesom, Paul Johnson, a Woolley

- (b) ymgynghori â chynghorau tref a chymuned ar ail-benodi cynrychiolydd y Cynghorau Tref a Chymuned, a bod Mr Duggan-Keen, y cynrychiolydd presennol, yn parhau yn y swydd hyd nes y byddai'n cael ei ailbenodi neu fod penodiad newydd y cael ei wneud.

## **9. CYRFF ALLANOL**

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd yr adroddiad ar Gyrrff Allanol yr oedd y Cyngor yn gwneud penodiadau iddynt, ynghyd â'r rhai hynny a enwebwyd a'u tymhorau penodol yn y swydd. Yn dilyn etholiadau diweddar y Cyngor Sir, roedd angen ystyried pob enwebiad.

Ym mhob Cyfarfod Blynyddol, gwnaed argymhelliad i ddirprwyo i'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad ag Arweinwyr y Grwpiau gwleidyddol, y gallu i wneud penodiadau i gyrrff. Roedd angen dirprwyo rŵan i wneud yr enwebiad cyntaf a hefyd yn ystod blwyddyn y Cyngor 2017/18 a fyddai'n sicrhau y gellid ymdrin yn effeithlon ag unrhyw newidiadau.

Y bwriad oedd fod pob enwebiad a wnaed yn parhau drwy gydol oes y Cyngor, tan fis Mai 2022.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Hutchinson, eglurodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) fod pob aelod wedi peidio â bod yn gynrychiolwyr ar gyrrff allanol cyn yr etholiad ac roeddent yn ceisio enwebiadau newydd.

Yn dilyn cwestiwn gan y Cynghorydd Phillips, eglurodd y Prif Weithredwr fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wrthi'n pennu'r niferoedd i'w dyrannu i bob Cyngor ar gyfer cynrychiolydd ar y Panel Heddlu a Throsedd.

### **PENDERFYNWYD:**

- (a) Bod y Cyngor yn nodi'r rhestr Cyrff Allanol presennol;
- (b) Bydd pob enwebiad yn para tan fis Mai 2022 oni bai fod yr Aelod a enwebwyd yn ymddiswyddo o'r Corff Allanol hwnnw; a
- (c) Bod y Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad ag Arweinwyr y Grwpiau, yn cael ei awdurdodi i wneud enwebiadau i Gyrrff Allanol ar ran y Cyngor.

## **10. ATODLEN O GYDNABYDDIAETH ARIANNOL**

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd adroddiad yr Atodlen o Gydabyddiaeth Ariannol. Eglurodd bod Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol bob blwyddyn yn pennu cyfraddau tâl a fyddai'n cael eu gwneud i Aelodau etholedig a chyfetholedig awdurdodau lleol Cymru ar gyfer blwyddyn y Cyngor sydd i ddod. Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y cynnig y gwanwyn blaenorol gyda'r adroddiad terfynol yn cael ei gyhoeddi ym

mis Chwefror 2017 a oedd yn gosod lefel y taliadau i Aelodau ar gyfer 2017/18.

Rhaid gosod lefelau tâl ar gyfer Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor, Aelodau'r Cabinet a Chadeiryddion Pwyllgorau. Rhaid i'r Cyngor hefyd gyhoeddi atodlen yn dangos pwy dderbyniodd pa lefel o dâl. Felly, byddai adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Sir ar 20 Mehefin unwaith y byddai penodiadau wedi eu gwneud i swyddi tâl uwch. Cadarnhawyd fod pob swydd o'r fath yn cynnwys y cyflog sylfaenol o £13,400.

Cynigiodd Aaron Shotton y dylai'r status quo aros ar gyfer Aelodau'r Cabinet, Cadeiryddion Pwyllgorau, Cadeirydd y Cyngor ac Is-gadeirydd y Cyngor ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Attridge.

Cynigiodd y Cynghorydd Chris Dolphin welliant y dylid cytuno ar y taliad lleiaf i bob un o'r swyddi sy'n derbyn taliad ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Owen Thomas. O'i roi i bleidlais, gwrthodwyd y gwelliant.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig gwreiddiol, a gynigiwyd gan y Cynghorydd Aaron Shotton, a chafodd ei gymeradwyo.

#### **PENDERFYNWYD:**

- (a) Dylai Aelodau'r Cabinet dderbyn Lefel 1, sy'n cynnwys y cyflog sylfaenol;
- (b) Dylid talu cyflog uwch Lefel 1 i Gadeiryddion y Pwyllgor, sy'n cynnwys cyflog sylfaenol;
- (c) Dylai tâl Cadeiryddion y Cyngor fod ar Lefel 2, sy'n cynnwys cyflog sylfaenol; a
- (d) Dylai tâl Is-gadeirydd y Cyngor fod ar Lefel 2, sy'n cynnwys cyflog sylfaenol; a

#### **11. PENODI AELOD LLEYG I'R PWYLLGOR ARCHWILIO**

